Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
47/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
25/04/2023

# Ymchwil Cwmpasu i Lywio'r Gwaith o Gyflwyno Bwndeli Babi yn Genedlaethol yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-845-9

Ymchwil Cwmpasu i Lywio'r Gwaith o Gyflwyno Bwndeli Babi yn Genedlaethol yng Nghymru

Sioned Lewis, Sam McAlister-Wilson a Kara Stedman

Arad Research

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Lewis, S; McAlister-Wilson, S; Stedman, K (2023). *Ymchwil Cwmpasu i Lywio'r Gwaith o Gyflwyno Bwndeli Babi yn Genedlaethol yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 47/2023
Ar gael: https://www.llyw.cymru/ymchwil-cwmpasu-i-lywior-gwaith-o-gyflwyno-bwndeli-babi-yn-genedlaethol

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw o reidrwydd yn cyfateb i farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r canlynol:
Enw: Abigail Ryan
Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl o'r cynnwys


Rhestr o'r Tablau ....................................................................................................2

Rhestr o'r ffigurau ....................................................................................................2

1. Cyflwyniad a chefndir ....................................................................................4

2. Methodoleg ....................................................................................................8

3. Eitemau'r Bwndeli Babi ..................................................................................15

4. Gwybodaeth yn y Bwndel ..............................................................................47

5. Cofrestru a Dosbarthu'r Bwndel Babi ...........................................................51

6. Casgliadau ....................................................................................................59

Atodiad A: Arolwg Rhieni ......................................................................................63

Atodiad B: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol ............................................................72

Atodiad C: Canllawiau Pynciau .............................................................................80

Atodiad D: Demograffeg yr ymatebwyr i'r Arolwg Rhieni ......................................97

**Rhestr o'r Tablau**


Tabl 2.1: Nodweddion rhieni (darpar rieni / plant eraill) – Arolwg rhieni ..... 10
Tabl 2.2: Oed y plentyn arall/plant eraill – Arolwg rhieni ..... 10
Tabl 2.3: Nodweddion rhieni (rhieni mabwysiadol/benthyg croth/gofalu, genedigaethau lluosog) – Arolwg rhieni ..... 10
Tabl 2.4: Rôl ymatebwyr yr arolwg – Arolwg Gweithwyr Proffesiynol ..... 12
Tabl 2.5: Cyflogwr gweithwyr proffesiynol – Arolwg Gweithwyr Proffesiynol ..... 13
Tabl 2.6: Cyflogwr awdurdod lleol – Arolwg Gweithwyr Proffesiynol ..... 13
Tabl 2.7: Cyflogwr bwrdd iechyd – Arolwg Gweithwyr Proffesiynol ..... 14


**Rhestr o'r ffigurau**


Ffigur 3.1 Y pum eitem mwyaf defnyddiol ar gyfer y bwndel i rieni ..... 17
Ffigur 3.2: Eitemau eraill a'u sgôr defnyddioldeb i rieni (%) ..... 18
Ffigur 3.3 Y pum eitem mwyaf defnyddiol ar gyfer y bwndel ym marn gweithwyr proffesiynol (%) ..... 19
Ffigur 3.4 Eitemau eraill a'u sgôr defnyddioldeb ym marn gweithwyr proffesiynol (%) ..... 20
Ffigur 3.5 Barn rhieni ynghylch defnyddioldeb condomau yn y bwndel (%) ..... 22
Ffigur 3.6: Pa mor debygol fyddai'r eitemau canlynol o gael eu defnyddio petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel gawsoch chi? Arolwg rhieni (%) ..... 25
Ffigur 3.7: Yn eich barn chi, pa mor debygol fyddai rhieni o ddefnyddio'r eitemau canlynol petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (%) ..... 26
Ffigur 3.8 Sut byddech chi'n dewis derbyn yr eitemau canlynol, os o gwbl? Arolwg Rhieni (%) ..... 41
Ffigur 3.9 Sut byddech chi'n dewis derbyn yr eitemau canlynol, os o gwbl? Arolwg Rhieni – heb gynnwys y rhai a ddywedodd nad oeddent am dderbyn yr eitemau o gwbl (%) ..... 42
Ffigur 3.10 Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddarparu'r eitemau canlynol, os o gwbl? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (%) ..... 43
Ffigur 3.11 Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddarparu'r eitemau canlynol, os o gwbl? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol ..... 44
Ffigur 3.12: Pa rai o'r eitemau canlynol rydych chi'n meddwl ddylai gael eu cynnwys mewn bwndel llai? Arolwg Rhieni ..... 45

Ffigur 3.13 Pa rai o’r eitemau canlynol rydych chi’n meddwl ddylai gael eu cynnwys mewn bwndel llai? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol ............................................................46
Ffigur 4.1 Gellir darparu gwybodaeth bellach ar rai pynciau gyda’r bwndel. Ydych chi’n meddwl y dylid cynnwys gwybodaeth am y canlynol? Arolwg Rhieni .......................48
Ffigur 4.2 Gellir darparu gwybodaeth bellach ar rai pynciau gyda’r bwndel. Ydych chi’n meddwl y dylid cynnwys gwybodaeth am y canlynol? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (%)...........................................................................................................................48
Ffigur 5.1: Dull o hysbysu rhieni: Ddylai rhieni gael gwybod am y bwndel gan eu bydwraig mewn apwyntiad bydwraig? (%).........................................................................51
Ffigur 5.2 Fel gweithiwr proffesiynol, pa ddull cofrestru rydych chi’n meddwl fyddai orau? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (%) ........................................................................54
Ffigur 5.3 Wrth gofrestru ar gyfer y bwndel, mae modd gwneud hynny ar-lein neu drwy ffurflen bapur – pa ddull cofrestru byddech chi’n ei ffafrio? Arolwg Rhieni ..............56

# 1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil cwmpasu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio cyflwyno bwndeli babi yn genedlaethol yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023, ac roedd yn cynnwys casglu gwybodaeth gan ddarpar rieni a rhieni newydd, yn ogystal ag aelodau o'r gweithlu sydd â diddordeb mewn bwndeli babi, megis bydwragedd, ymwelwyr iechyd ac eraill.

**Cefndir**

1.2 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gynnig bwndeli babi am ddim i fwy o deuluoedd ar draws Cymru. Byddai'r bwndeli'n cynnwys ystod o gynnyrch a gwybodaeth ar gyfer misoedd cyntaf y plentyn, a'r bwriad yw y bydd bwndeli'n cael eu cynnig i bob teulu yn ddi-dâl, ac ar gyfer pob baban. Bydd y cynllun yn gwbl gynhwysol, a bydd teuluoedd yn gallu cofrestru ar gyfer bwndel a chyrchu gwybodaeth ddwyieithog am fwndeli babi yn agored ac yn ddi-dâl.

1.3 Cynhaliwyd peilot bwndeli babi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021, pryd y dosbarthwyd 200 o fwndeli i deuluoedd oedd yn disgwyl baban yn ystod y cyfnod hwn. Dangosodd gwerthusiad o'r peilot fod y cynllun wedi rhedeg yn hwylus. Roedd cofrestru i dderbyn y bwndel yn syml iawn, yn ôl y rhieni a'r bydwragedd a fu'n rhan o'r peilot, ac roedd y farn gyffredinol ynghylch cynnwys y bwndel yn gadarnhaol.[1] Fodd bynnag, cynhaliwyd y peilot a'i werthusiad yn ystod pandemig COVID-19, yn ardal un bwrdd iechyd, gyda nifer cyfyngedig o rieni. O ganlyniad, mae'r ymchwil hon yn casglu mewnbwn gan fwy o weithwyr proffesiynol, ac o grŵp mwy amrywiol o rieni a chymunedau o bob rhan o Gymru cyn y posibilrwydd o estyn cwmpas y cynllun.

*Y cynllun bwndeli babi a gynigir*

1.4 Mae datganiad ysgrifenedig sy'n rhoi diweddariad ar y cynllun yn esbonio fel a ganlyn:

[1] Gwerthusiad o'r rhaglen beilot bwndeli babi | LLYW.CYMRU

'Ein nod yw darparu cynllun sy'n agored i holl rieni newydd a darpar rieni Cymru. Byddai bwndeli'n cael eu cynnig yn ddi-dâl i bob teulu ar gyfer pob baban a enir. Byddent yn rhodd i groesawu babi newydd, heb amodau a heb stigma.'[2]

1.5 Nod y cynllun bwndeli babi arfaethedig yw cynnig gwasanaeth cyffredinol sy'n hygyrch i'r holl rieni newydd a darpar rieni sy'n byw yng Nghymru. Roedd datganiad 2022 yn cyflwyno'r nodau arfaethedig, sef cyfrannu at y canlynol:

- Gwell canlyniadau i blant, trwy gyfeirio teuluoedd at wybodaeth a chyngor ynghylch rhaglenni cymorth a magu plant.
- Taclo anghydraddoldeb, trwy ddarparu mynediad i bob teulu i'r un eitemau hanfodol i gefnogi dechrau eu plentyn mewn bywyd.
- Taclo tlodi, trwy ddileu rhai o'r costau mae teuluoedd yn eu hwynebu pan enir baban.
- Datgarboneiddio – bydd y bwndeli babi yn osgoi cynnyrch untro, ac yn lleihau'r pecynnu a ddefnyddir, gan ddefnyddio cyflenwyr lleol lle bynnag y bo modd.

**Trosolwg o gynlluniau tebyg mewn mannau eraill a'r gwersi a ddysgwyd**

1.6 Mae'r cynllun arfaethedig, a'r peilot cynharach, wedi cael eu llywio gan dystiolaeth o raglenni tebyg ar draws y byd. Mae cynlluniau bwndeli babi neu flychau babi yn darparu pecyn o eitemau hanfodol a dewisol i rieni newydd ar gyfer eu plentyn newyddanedig. Nod y rhaglenni hyn fel arfer yw hybu iechyd a llesiant y fam a'r plentyn.

1.7 Rhaglen Blychau Babi'r Ffindir, a gyflwynwyd yn y 1930au, yw un o'r mwyaf adnabyddus. Mae'r rhaglen hon yn darparu blwch cardbord a luniwyd yn arbennig i fod yn wely cyntaf i'r babi, ynghyd â matras a detholiad o eitemau i'r babi megis dillad, dillad gwely a deunydd ymolchi. Mae'r rhaglen ar gael i'r holl ddarpar rieni yn y Ffindir, a barnwyd ei bod wedi helpu i leihau cyfradd marwoldeb babanod yn y wlad. Yn yr un modd, mae rhaglen Blychau Babi yr Alban, a gyflwynwyd yn 2017, yn fenter gyffredinol sy'n ceisio hybu iechyd mamau a phlant a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r rhaglen yn darparu pecyn o eitemau hanfodol i

[2] Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar y cynnydd gyda chynllun bwndeli babi cenedlaethol (20 Gorffennaf 2022) | LLYW.CYMRU

rieni newydd yn yr Alban, gan gynnwys dillad, dillad gwely a chynnyrch hylendid, yn ogystal â blwch cardbord a luniwyd yn arbennig i fod yn wely cyntaf i'r babi. Yn ogystal â'r eitemau ymarferol a gynhwysir yn y blwch, mae'r rhaglen hefyd yn darparu gwybodaeth i rieni newydd am amrywiaeth o bynciau iechyd a llesiant, gan gynnwys cyngor ar fagu plant a chefnogaeth i fwydo ar y fron.

1.8 Mae gwerthusiadau o gynlluniau tebyg yn y Ffindir, yr Alban, a mannau eraill wedi egluro eu llwyddiant yn nhermau sawl ffactor, gan gynnwys:[3]

- Cymhwysedd cyffredinol: Un o ffactorau allweddol llwyddiant y cynlluniau hyn yw eu bod ar gael i bawb sy'n ddarpar rieni, beth bynnag yw eu statws sosio-economaidd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pob teulu yn cael mynediad at yr eitemau hanfodol a'r cymorth mae'r rhaglen yn eu darparu, ac mae hynny yn ei dro yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.
- Cofrestru ac ymuno yn hwylus: Ffactor arall pwysig yw rhwyddineb cofrestru ar gyfer y blwch babi a'i dderbyn. Mewn llawer o raglenni, gall darpar rieni gofrestru ar-lein neu wyneb yn wyneb, ac mae'r broses yn syml a hwylus, sy'n helpu i sicrhau bod pob teulu sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen yn gallu elwa ohoni.
- Eitemau o safon uchel. Adroddwyd bod ansawdd cynnwys y blychau babi eu hunain yn ffactor allweddol yn llwyddiant y rhaglenni hyn.
- Enw da: Dros amser, mae argymhellion ar lafar a sylw cadarnhaol yn y cyfryngau wedi helpu i feithrin cefnogaeth a diddordeb yn y cynlluniau, sydd yn ei dro wedi helpu i sbarduno'u twf a'u llwyddiant.

### Amcanion yr ymchwil a chynnwys yr adroddiad

1.9 Amcanion penodol yr ymchwil oedd casglu tystiolaeth i lywio cyflwyno'r cynllun bwndeli babi, i nodi'r eitemau hanfodol y dylid eu cynnwys yn y bwndel, ac i benderfynu ar destun a fformat unrhyw wybodaeth fyddai'n cael ei darparu i rieni fel rhan o'r bwndel. Bu'r ymchwil hefyd yn archwilio safbwyntiau o ran cofrestru a

[3] Gwerthusiad yr Alban: Baby Box: evaluation - gov.scot (www.gov.scot); Gwerthuso cynlluniau mewn rhai Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr Baby-box schemes in England: parent and practitioner experiences, and recommendations | BMC Pediatrics | Full Text (biomedcentral.com); Trosolwg o gynllun y Ffindir a rhai eraill: The baby box Enhancing the wellbeing of babies and mothers around the world (researchgate.net)

chyflwyno'r bwndel, yn ogystal ag opsiynau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am y bwndeli babi i ddarpar rieni. Bu hefyd yn ystyried materion amgylcheddol wrth ddarparu'r cynnwys.

1.10 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn manylu ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil, canfyddiadau'r ymchwil, a'r casgliadau a gafwyd o'r canfyddiadau.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod ar fethodoleg yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd wrth wneud y gwaith ymchwil. Mabwysiadwyd dulliau cymysg, oedd yn defnyddio barn rhieni, darpar rieni a gweithwyr proffesiynol trwy arolygon, cyfweliadau a thrafodaethau grŵp.

### Ymchwil Pen Desg a Cwmpasu

2.2 Cynhaliodd ymchwilwyr ymchwil pen desg i adolygu'r llenyddiaeth oedd eisoes yn bodoli a'r dogfennau polisi ynghylch mentrau tebyg a roddwyd ar waith mewn mannau eraill, megis y blwch babi yn yr Alban a'r rhaglen blychau babi yn y Ffindir. Hefyd cynhaliwyd adolygiad o'r ymchwil ar y peilot bwndeli babi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe er mwyn helpu i lywio'r offer ymchwil.

*Cyfweliadau Llywodraeth Cymru*

2.3 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda dau swyddog o dîm polisi Llywodraeth Cymru. Pwrpas y cyfweliadau hyn oedd sicrhau mwy o gyd-destun o ran cefndir y cynllun a chanfyddiadau o'r peilot bwndeli babi, yn ogystal â chasglu safbwyntiau a mewnwelediad ar y fenter, yr effeithiau a ragwelir, a barn ynghylch cyflwyno bwndeli babi yn y dyfodol.

### Ymchwil Sylfaenol

*Arolwg o Rieni Newydd a Darpar Rieni*

2.4 Crëwyd arolwg dwyieithog i ddarpar rieni a rhieni newydd ei lenwi ar-lein (sydd i'w weld yn Atodiad A). Roedd pynciau'r arolwg yn cynnwys: yr eitemau yn y bwndel; gwybodaeth i'w chynnwys yn y bwndel; cofrestru ar gyfer y bwndel; a chyflwyno'r bwndel.

2.5 Crëwyd hysbyseb ddwyieithog i hysbysebu'r arolwg ymhlith rhieni, darpar rieni a chyrff cefnogi perthnasol. Cafodd yr hysbyseb ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook yn bennaf), a thrwy ddefnyddio grwpiau sy'n cefnogi darpar rieni a rhieni newydd i rannu taflen ddigidol a dolen i'r arolwg. Ymhlith y grwpiau oedd yn rhan o'r gwaith hyrwyddo roedd cylchoedd chwarae i blant bach yng Nghymru, llyfrgelloedd, a rhwydweithiau megis Dechrau'n Deg a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob awdurdod lleol.

2.6 Cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 1,078 o rieni a darpar rieni. Fel y dangosir yn Nhabl 2.1, nid oedd 64.1 y cant o'r ymatebwyr yn ddarpar rieni, ond roedd ganddynt blant o dan 5 oed, tra bod 35.9 y cant o'r ymatebwyr yn disgwyl baban ar hyn o bryd (roedd gan 22.4 y cant o'r rhain blant eraill eisoes, ond nid oedd hynny'n wir am 13.5 y cant ohonynt). Mae Tabl 2.2 yn dangos bod gan 45.6 y cant o'r ymatebwyr blentyn/blant o dan 12 mis, bod gan 61.7 y cant blentyn/blant 1-5 oed, a bod gan 18.2 y cant blentyn/blant dros bump oed. Sylwer bod rhieni a aeth at yr arolwg, ond a atebodd bod ganddynt blentyn dros bump oed, wedi cael cais i barhau dim ond os oedden nhw'n disgwyl plentyn arall yn ogystal.

2.7 Mae Tabl 2.3 yn dangos bod niferoedd bach o'r ymatebwyr yn rhieni mabwysiadol neu'n gofalu am blant sy'n derbyn gofal (wyth ymatebydd ar draws y ddau gategori), wedi cael efeilliaid, tripledi neu fwy, neu'n disgwyl genedigaeth luosog (12 o ymatebwyr), yn rhieni plentyn/plant a aned trwy fenthyg croth, neu roedden nhw'n disgwyl plentyn a fyddai'n cael ei eni trwy fenthyg croth (11 o ymatebwyr).

2.8 Casglwyd manylion demograffig pellach gan yr ymatebwyr, ac roedd hynny'n dangos bod y mwyafrif yn 25-34 oed (62.3 y cant), yn fenywod (98 y cant), yn uniaethu o ran rhywedd â'r rhyw gofrestrwyd adeg eu geni (98.8 y cant), yn siarad Saesneg fel prif iaith gartref (90.7 y cant), heb gyflyrau iechyd meddwl na salwch y disgwylir iddo barhau am 12 mis neu fwy (79.5 y cant), mewn cyflogaeth amser llawn (50.6 y cant), yn byw gyda phartner neu briod (84.8 y cant), yn syth/wahanrywiol (95.6 y cant), yn Wyn – o Gymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Brydain (92.9 y cant) a heb grefydd (69.1 y cant). Mae tablau demograffig llawn ar gael yn Atodiad D. Ni ddadansoddwyd y data hwn am ddau brif reswm. Yn gyntaf, roedd niferoedd bach iawn yn rhai o'r grwpiau demograffig, oedd yn golygu ei fod yn anodd dod i gasgliadau ystyrlon o'r data. Yn ail, datgelodd dadansoddiad cychwynnol o rai o gwestiynau'r arolwg fesul grŵp demograffig nad oedd gwahaniaethau gwerth eu nodi yn y safbwyntiau a fynegwyd gan wahanol grwpiau.

**Tabl 2.1: Nodweddion rhieni (darpar rieni / plant eraill) – Arolwg rhieni**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Darpar riant heb blant eraill | 146 | 13.5% |
| Darpar riant sydd â phlentyn arall/phlant eraill | 242 | 22.4% |
| Ddim yn ddarpar riant ond â phlant eraill o dan 5 | 690 | 64.1% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni yn yr arolwg (1,078), Efallai na fydd y ffigurau'n creu cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu. Cwestiwn arolwg: 'P'un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi?', gyda'r opsiynau ateb a geir yn y tabl.

**Tabl 2.2: Oed y plentyn arall/plant eraill – Arolwg rhieni**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Mae gen i blentyn/blant o dan 12 mis oed | 425 | 45.6% |
| Mae gen i blentyn/blant 1-5 oed | 575 | 61.7% |
| Mae gen i blentyn/blant dros 5 oed | 170 | 18.2% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni yn yr arolwg (932) a oedd wedi ateb bod ganddyn nhw blant eisoes. Cwestiwn amlddewis. Cwestiwn arolwg: 'P'un o'r canlynol sy'n disgrifio orau oed eich plentyn/plant eraill?', gyda'r opsiynau ateb a geir yn y tabl.

**Tabl 2.3: Nodweddion rhieni (rhieni mabwysiadol/benthyg croth/gofalu, genedigaethau lluosog) – Arolwg rhieni**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Rwy'n rhiant mabwysiadol neu'n gofalu am blant sy'n derbyn gofal | 8 | 0.8% |
| Rwyf wedi cael efeilliaid, tripledi neu fwy, neu rwy'n disgwyl genedigaeth luosog | 12 | 1.1% |
| Rwy'n rhiant i blentyn/blant a aned trwy fenthyg croth, neu rwy'n disgwyl plentyn a enir trwy fenthyg croth | 11 | 1.0% |
| Dim un o'r uchod | 1,030 | 97.1% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni yn yr arolwg (1,061). Ni chafwyd ateb gan 17 o'r ymatebwyr. Roedd 'Rwy'n rhiant mabwysiadol' a 'Rwy'n gofalu am blant sy'n derbyn gofal' yn ddewisiadau ateb ar wahân, ond cyflwynir y canlyniadau ar y cyd yma gan fod niferoedd y naill gategori a'r llall yn fychan. Cwestiwn arolwg: 'Ydy unrhyw un o'r canlynol yn eich disgrifio chi'. Amlddewis.

*Grwpiau Ffocws gyda Darpar Rieni a Rhieni Newydd*

2.9 Cynhaliodd Arad bum grŵp ffocws gyda chyfanswm o 37 o ddarpar rieni a rhieni newydd. Mae'r canllaw i grwpiau ffocws i'w weld yn Atodiad C. Yn ystod grwpiau ffocws, dangoswyd rhestr o gynnwys arfaethedig y bwndeli a lluniau o'r bwndel babi peilot i'r cyfranogwyr. Holwyd barn y cyfranogwyr ar yr eitemau ac a oedd unrhyw ystyriaethau neu anhawster gydag unrhyw eitemau o'u safbwynt nhw eu hunain neu grwpiau penodol o rieni. Holwyd cyfranogwyr hefyd ynghylch eu barn ar gofrestru ar gyfer y bwndel a'i ddosbarthu.

2.10 Recriwtiwyd cyfranogwyr y grwpiau ffocws trwy gyfuniad o ymatebwyr yr arolwg (y rhai a nododd y byddent yn fodlon petai rhywun yn cysylltu â nhw i gymryd rhan mewn grŵp ffocws wrth lenwi'r arolwg) a thrwy sefydliadau a grwpiau cefnogi perthnasol. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws canlynol:

- Rhieni oedd yn cael eu cefnogi gan elusen ffoaduriaid/ceiswyr lloches. Saith o rieni, i gyd yn fenywod, roedd gan 6 ohonynt blentyn 0-2 oed, ac roedd un yn ddarpar riant. Grŵp wyneb yn wyneb.
- Grŵp rhieni ifanc (o dan 26 oed). Pump o rieni (pedair benyw, un gwryw). Grŵp wyneb yn wyneb.
- Grŵp rhithwir cyfrwng Saesneg a recriwtiwyd trwy'r arolwg – pum rhiant â phlant 0-1 oed. I gyd yn fenywod.
- Grŵp rhithwir cyfrwng Cymraeg a recriwtiwyd trwy'r arolwg – tri rhiant â phlant 0-2 oed. I gyd yn fenywod.
- Grŵp rhieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a drefnwyd trwy Gyngor Dinas Casnewydd. Un deg saith o rieni, i gyd yn fenywod, ni chasglwyd manylion am nifer y plant na'u hoed, roedd un yn ddarpar riant. Grŵp wyneb yn wyneb.

*Arolwg Gweithlu*

2.11 Lluniwyd arolwg dwyieithog i weithwyr proffesiynol ei lenwi ar-lein (mae hwn i'w weld yn Atodiad B). Roedd pynciau'r arolwg yn cynnwys: yr eitemau yn y bwndel; gwybodaeth i'w chynnwys yn y bwndel; rhoi gwybod i rieni am y bwndel; cofrestru ar gyfer y bwndel; a beth i'w wneud mewn achosion lle collir y baban, lle caiff ei eni'n farw, neu os yw'r baban newyddanedig yn marw.

2.12 Dosbarthwyd y ddolen i'r arolwg ar-lein i fydwragedd, ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran y tîm ymchwil gan gadeirydd y grŵp ymgynghorol penaethiaid bydwreigiaeth a chadeirydd y grŵp penaethiaid ymweliadau iechyd. O ganlyniad, nid yw'n hysbys faint o weithwyr proffesiynol gafodd y ddolen i'r arolwg er mwyn cyfrifo cyfradd ymateb. Fodd bynnag, yn ôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth roedd 1,859 o fydwragedd wedi cofrestru yng Nghymru ym mis Medi 2022.[4] O'r bydwragedd cofrestredig hyn, cwblhaodd 113 yr arolwg, sy'n cynrychioli rhyw 6 y cant o'r boblogaeth bydwragedd.

2.13 Cwblhaodd cyfanswm o 238 o weithwyr proffesiynol yr arolwg. Mae Tabl 2.4 yn dangos bod 47.5 y cant o'r ymatebwyr yn fydwragedd, 18.5 y cant yn ymwelwyr iechyd, a 34 y cant o alwedigaeth arall (e.e. gweithwyr cymorth i deuluoedd, gweithwyr cefnogi mamolaeth, ymarferwyr iechyd meddwl amenedigol). Mae Tabl 2.5 yn dangos bod 28.7 y cant o'r ymatebwyr wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol (naill ai Dechrau'n Deg, 19.8 y cant, neu mewn ffordd arall, 8.9 y cant), tra bod 73.4 y cant wedi'u cyflogi gan fwrdd iechyd.

2.14 Gofynnwyd i ymatebwyr oedd wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol enwi'r awdurdod oedd yn eu cyflogi. Mae Tabl 2.6 yn dangos dosbarthiad yr ymatebwyr fesul ardal awdurdod lleol ac yn dangos bod yr ymatebwyr yn dod o 14 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

2.15 Gofynnwyd i ymatebwyr oedd wedi'u cyflogi gan fwrdd iechyd pa fwrdd iechyd oedd yn eu cyflogi. Fel y dangosir yn Nhabl 2.7 cafwyd y nifer uchaf o ymatebion gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (22.5 y cant).

**Tabl 2.4: Rôl ymatebwyr yr arolwg – Arolwg Gweithwyr Proffesiynol**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Bydwraig | 113 | 47.5% |
| Ymwelydd Iechyd | 44 | 18.5% |
| Arall | 81 | 34.0% |

Sylfaen = pob un o'r gweithwyr proffesiynol yn yr arolwg (238). Cwestiwn un dewis. Cwestiwn arolwg: 'Beth yw eich rôl?'

[4] Diweddariad canol blwyddyn cofrestr NMC Cymru

**Tabl 2.5: Cyflogwr gweithwyr proffesiynol – Arolwg Gweithwyr Proffesiynol**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Awdurdod lleol – Dechrau'n Deg | 47 | 19.8% |
| Awdurdod lleol – arall | 21 | 8.9% |
| Bwrdd iechyd | 174 | 73.4% |
| Arall | 12 | 5.1% |

Sylfaen = pob un o'r gweithwyr proffesiynol yn yr arolwg (237). Ticiodd 17 o ymatebwyr fwy nag un ateb. Ni roddodd un ymatebydd ateb i'r cwestiwn yma. Cwestiwn arolwg: 'Pwy sy'n eich cyflogi?'. Cwestiwn amlddewis.

**Tabl 2.6: Cyflogwr awdurdod lleol – Arolwg Gweithwyr Proffesiynol**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | 3.1% |
| Caerdydd | 13 | 20.0% |
| Ceredigion | 2 | 3.1% |
| Conwy | 1 | 1.5% |
| Sir Ddinbych | 2 | 3.1% |
| Sir y Fflint | 11 | 16.9% |
| Gwynedd | 5 | 7.7% |
| Merthyr Tydfil | 3 | 4.6% |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 | 4.6% |
| Casnewydd | 3 | 4.6% |
| Sir Benfro | 3 | 4.6% |
| Rhondda Cynon Taf | 8 | 12.3% |
| Torfaen | 8 | 12.3% |
| Wrecsam | 1 | 1.5% |

Sylfaen = pob un o'r gweithwyr proffesiynol yn yr arolwg (65) sy'n gweithio i awdurdod lleol. Cwestiwn arolwg: 'Ym mha ardal awdurdod lleol rydych chi'n gweithio?'

**Tabl 2.7: Cyflogwr bwrdd iechyd – Arolwg Gweithwyr Proffesiynol**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 20 | 11.6% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 32 | 18.5% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 29 | 16.8% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 39 | 22.5% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 29 | 16.8% |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Powys | 10 | 5.8% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 14 | 8.1% |

Sylfaen = pob un o'r gweithwyr proffesiynol yn yr arolwg (173) sy'n gweithio i fwrdd iechyd. Ni roddodd un ymatebydd ateb i'r cwestiwn hwn. Cwestiwn arolwg; 'Pa fwrdd iechyd sy'n eich cyflogi?'

*Cyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol*

2.16 Cynhaliwyd cyfweliadau gydag aelodau o'r gweithlu, gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd a gweithwyr cefnogi, er mwyn casglu mewnwelediad a phrofiadau dyfnach mewn perthynas â'r fenter.

2.17 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda chyfanswm o wyth gweithiwr proffesiynol, oedd â'r rolau canlynol:

- Dwy fydwraig
- Pedwar gweithiwr cymorth i rieni
- Dau ymwelydd iechyd.

*Cyfweliadau gyda chyrff rhanddeiliaid sy'n cefnogi rhieni*

2.18 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda chyrff rhanddeiliaid arbenigol sy'n cefnogi rhieni, er mwyn casglu eu persbectif ar y fenter a'r cymorth maen nhw'n ei ddarparu i rieni. Y cyrff hyn oedd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB), Fertility Network, Oasis, Sipsiwn a Theithwyr Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd (Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Addysg Gwent) a Dechrau'n Deg.

## 3. Eitemau'r Bwndeli Babi

### Cefnogaeth gyffredinol

3.1 Roedd cefnogaeth aruthrol i'r cysyniad o gynllun bwndeli babi ymhlith yr ymatebwyr. Roedd rhieni, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd yn cefnogi nodau a bwriadau'r prosiect ac yn croesawu'r fenter.

3.2 Cafodd y cynllun adborth cadarnhaol gan weithwyr proffesiynol a fu'n cyfranogi yn yr arolwg, a wnaeth sylwadau ei fod yn 'syniad gwych' ac yn 'fenter ardderchog'. Cododd nifer bach o ymatebwyr – ar draws y gwaith maes gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol – bryderon ynghylch y gost a'r effaith bosibl ar wasanaethau sydd eisoes yn bodoli, fel cynlluniau banciau babi lleol. Roedd y rhieni a fu'n cyfranogi yn y grwpiau ffocws hefyd yn cefnogi'r bwndeli babi, gan amlygu sut byddai'n lliniaru peth o'r baich ariannol cysylltiedig â chael baban newydd, a'u helpu nhw i gael gafael ar yr eitemau allweddol angenrheidiol.

### Barn ar yr eitemau allweddol

3.3 Holwyd rhieni, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol yn yr arolygon, y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws am ddefnyddioldeb canfyddedig pob eitem a awgrymwyd ar gyfer y bwndeli babi, gan gynnwys a oedden nhw'n teimlo bod unrhyw eitemau yn ddiangen, yn anaddas, neu y gallent gael eu gwastraffu.

3.4 Roedd y rhestr o eitemau a drafodwyd gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Dillad babi – siwtiau cysgu/siwtiau undarn a siaced gnu
- Mat chwarae
- Mat newid cludadwy
- Lliain bath â chwfl
- Sach gysgu i fabi
- Thermomedr babi
- Condomau
- Eli tethi[5]
- Thermomedr bath ac ystafell yn un
- Pecyn cychwynnol o gewynnau amldro
- Lapiad babi neu sling
- Bag newid ar ffurf sach gefn
- Padiau mamolaeth
- Padiau bronnau[5]


[5] Yn yr arolygon i rieni a gweithwyr proffesiynol, cyfeiriwyd at y 'padiau bronnau' fel 'padiau bwydo ar y fron', a chyfeiriwyd at yr 'eli tethi' fel 'eli bwydo ar y fron'. Diweddarwyd y derminoleg a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil yn dilyn adborth gan weithwyr proffesiynol. Er cysondeb, cyfeirir at yr eitemau hyn fel 'padiau bronnau' ac 'eli tethi' ar hyd yr adroddiad hwn.

3.5 Roedd consensws bod y rhan fwyaf o'r eitemau yn briodol ac y bydden nhw'n cael eu defnyddio, a gwelid y cynnwys fel cyfuniad o eitemau allweddol (fel dillad a phadiau mamolaeth) ac eitemau anhanfodol 'braf eu cael' (fel y mat chwarae). Nodwyd y gallai ambell eitem fod yn anaddas neu gael eu gwastraffu, a thrafodir y rhain yn fanylach ym mharagraffau 3.32 ymlaen.

*Barn rhieni ar yr eitemau allweddol*

3.6 Mae Ffigur 3.1 yn dangos y pum eitem ar y brig y barnwyd eu bod yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn y bwndel babi, yn ôl yr atebion yn arolwg y rhieni. Yr eitem roedd yr ymatebwyr yn teimlo fyddai'n fwyaf defnyddiol i'w chynnwys oedd y siwtiau cysgu a'r siwtiau undarn, gyda bron yr holl ymatebwyr (97 y cant) yn barnu bod hynny'n ddefnyddiol (gydag 86 y cant yn dweud y byddai'n 'ddefnyddiol iawn;' ac 11 y cant yn dweud y byddai 'o rywfaint o ddefnydd'). Dilynwyd hynny'n agos gan y thermomedr babi a'r sach gysgu, gyda'r mwyafrif llethol hefyd yn teimlo bod y rhain naill ai'n 'ddefnyddiol iawn' neu 'o rywfaint o ddefnydd' (96 y cant yn achos y ddwy eitem). Roedd nifer ychydig yn llai, er mwyafrif o'r ymatebwyr o hyd, yn barnu bod lliain bath â chwfl a thermomedr bath ac ystafell yn un naill ai'n 'ddefnyddiol iawn' neu 'o rywfaint o ddefnydd' (93 y cant a 92 y cant yn eu tro). Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn barnu bod unrhyw un o'r eitemau hyn 'heb fod mor ddefnyddiol' neu 'heb fod o ddefnydd o gwbl'.


**Ffigur 3.1 Y pum eitem mwyaf defnyddiol ar gyfer y bwndel i rieni**




Ffynhonnell: Arolwg rhieni (n=1,078). Cwestiwn arolwg: 'Gallai'r eitemau canlynol gael eu cynnwys yn y bwndel. Pa mor ddefnyddiol fyddai'r eitemau canlynol i chi petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel?'

3.7 Mae Ffigur 3.2 yn dangos sut cafodd y 10 eitem oedd yn weddill eu graddio o ran defnyddioldeb yn yr arolwg rhieni. Mae hyn yn dangos bod consensws cyffredinol y byddai bron yr holl eitemau yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn y bwndel. Y ddwy eitem a gafodd y sgôr isaf o ran bod yn 'ddefnyddiol iawn' neu 'o rywfaint o ddefnydd' oedd y pecynnau cychwynnol o gewynnau amldro, a'r condomau. Trafodir yr eitemau hynny yn fanylach yn yr adrannau sy'n dilyn.

**Ffigur 3.2: Eitemau eraill a'u sgôr defnyddioldeb i rieni (%)**





Ffynhonnell: Arolwg rhieni (n=1,078)

*Barn gweithwyr proffesiynol ar eitemau allweddol*

3.8 Mae Ffigur 3.3 yn dangos y pum eitem ar y brig y dywedodd ymatebwyr i'r arolwg gweithwyr proffesiynol y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn y bwndel. Yr eitem y dywedodd yr ymatebwyr y byddai'n fwyaf defnyddiol ei chynnwys oedd padiau mamolaeth, gyda bron yr holl ymatebwyr (98 y cant) yn dweud bod hynny'n ddefnyddiol (gydag 88 y cant yn dewis 'defnyddiol iawn' a 10 y cant yn dewis 'o rywfaint o ddefnydd'). Roedd padiau mamolaeth a phadiau bronnau ymhlith y pum eitem mwyaf defnyddiol i weithwyr proffesiynol, ond doedden nhw ddim ymhlith y pump uchaf i rieni. Serch hynny, cafodd yr holl eitemau sgoriau defnyddioldeb uchel tebyg ar draws y ddau arolwg.


**Ffigur 3.3 Y pum eitem mwyaf defnyddiol ar gyfer y bwndel ym marn gweithwyr proffesiynol (%)**




Ffynhonnell: Arolwg gweithwyr proffesiynol (n=238). Cwestiwn arolwg: 'Gallai'r eitemau canlynol gael eu cynnwys yn y bwndel. Pa mor ddefnyddiol rydych chi'n meddwl byddai pob un o'r eitemau hyn i rieni petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel?'

3.9 Mae Ffigur 3.4 yn dangos sut roedd y 10 eitem arall yn cael eu graddio o ran defnyddioldeb yn arolwg y gweithwyr proffesiynol. Mae hyn yn dangos bod consensws cyffredinol y byddai bron yr holl eitemau yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn y bwndel.

**Ffigur 3.4 Eitemau eraill a'u sgôr defnyddioldeb ym marn gweithwyr proffesiynol (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (n=238). Cwestiwn arolwg: 'Gallai'r eitemau canlynol gael eu cynnwys yn y bwndel. Pa mor ddefnyddiol rydych chi'n meddwl byddai pob un o'r eitemau hyn i rieni petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel?'

*Barn gyffredinol rhieni a gweithwyr proffesiynol ar yr eitemau sydd i'w cynnwys yn y bwndel*

3.10 Y prif wahaniaeth rhwng arolwg y rhieni a'r gweithwyr proffesiynol oedd bod condomau'n cael eu sgorio'n uwch, h.y. fel rhywbeth 'defnyddiol iawn' neu 'o rywfaint o ddefnydd' gan weithwyr proffesiynol o gymharu â rhieni (roedd 46 y cant o'r rhieni'n dweud bod condomau'n ddefnyddiol, o gymharu ag 87 y cant o'r gweithwyr proffesiynol).

3.11 Yn ystod trafodaethau dilynol gyda rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol, a thrafodaethau grŵp gyda rhieni, barnodd y mwyafrif o'r rhieni, y rhanddeiliaid a'r gweithwyr proffesiynol fod y rhan fwyaf o'r eitemau yn rhai allweddol, ac roedd consensws cyffredinol y dylid eu cynnwys yn y bwndel. Yr eitemau hynny oedd dillad, y mat chwarae, mat newid cludadwy, lliain bath â chwfl, sach gysgu i faban, y ddau fath o thermomedr (babi, ac ystafell/bath), padiau bronnau a phadiau mamolaeth. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai'r rhan

fwyaf o eitemau yn y bwndel yn cael eu defnyddio, a bod yr eitemau hyn i'w gweld yn gynnwys priodol ar gyfer bwndel babi.

3.12 Er bod y rhan fwyaf o'r eitemau wedi cael derbyniad da a'u hystyried yn briodol gan rieni, rhanddeiliad, a gweithwyr proffesiynol, codwyd rhai pryderon ynghylch rhai eitemau fel dillad, condomau, eitemau amldro y gellid eu golchi, sachau cysgu, y thermomedr bath ac ystafell, eli tethi, a'r bag newid ar ffurf sach gefn. Bydd yr adran nesaf yn rhoi sylw i'r eitemau hyn yn unigol.

**Dillad**

3.13 Cafodd yr eitemau dillad dderbyniad da, ac roedd consensws clir y byddai'r rhain yn cael eu defnyddio. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos eitemau mwy cyffredinol megis siwtiau cysgu/undarn, oedd yn cael eu hystyried yn hanfodion cwpwrdd dillad 'sefydlog' i fabi. Nododd llawer o ymatebwyr – yn rhieni a gweithwyr proffesiynol – y byddai rhieni'n debygol o dderbyn dillad yn anrhegion, neu y byddent yn hoffi prynu eu rhai eu hunain, ond y byddai hanfodion dillad bob amser yn ddefnyddiol. Gwnaed sylwadau ynghylch maint y dillad, yn benodol cynnwys meintiau heblaw Newyddanedig, na fyddai'n ddefnyddiol i fabanod mwy, fel bod modd defnyddio'r eitemau dillad yn hwy. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys sicrhau cymysgedd o feintiau, gan gynnwys Newyddanedig, 0-3 mis, a 3-6 mis yn y bwndel babi, neu 0-3 mis o leiaf.

3.14 Nododd sawl ymatebydd eu bod yn ffafrio dillad mewn lliwiau niwtral o ran rhywedd, gan osgoi pinc a glas.

3.15 Y siaced gnu oedd un o'r eitemau a nodwyd fel y rhai lleiaf tebygol i'w defnyddio. Y prif reswm a roddwyd am hyn oedd natur dymhorol yr eitem, a phryderon ynghylch meintiau cywir. Nododd sawl ymatebydd na fyddai'r eitem hon yn ddefnyddiol i fabanod a aned yn ystod yr haf, a gallai maint yr eitem hon fod yn broblematig hefyd – er enghraifft, gallai'r siaced gnu fod o faint nad oedd yn addas i'r baban ar yr adeg gywir o'r flwyddyn. Awgrymodd ambell un o'r gweithwyr proffesiynol a'r rhieni a gafodd gyfweliad y gallai bwndeli tymhorol fod yn ateb, yn cynnwys dilledyn tymhorol o faint priodol, megis bwndel haf yn cynnwys het haul neu fwndel gaeaf yn cynnwys y


siaced gnu. Awgrym arall oedd cynnwys taleb ar gyfer prynu y mathau hyn o eitemau dillad, er mwyn osgoi'r broblem maint/tymor.

**Condomau**

*Barn rhieni*

3.16 Yn arolwg y rhieni, fel y gwelir yn ffigurau 3.2 a 3.5, condomau oedd yr eitem a gafodd y ganran uchaf o ymatebion yn nodi 'nad oeddent yn ddefnyddiol', gyda 24 y cant o'r ymatebwyr yn nodi hynny, a 25 y cant arall yn nodi 'na fyddent yn ddefnyddiol iawn'.

**Ffigur 3.5 Barn rhieni ynghylch defnyddioldeb condomau yn y bwndel (%)**




3.17 Darparodd rhieni sylwadau ychwanegol yn esbonio'u rhesymau – cyfeiriwyd at alergedd latecs, cynnwys rhieni sengl a theuluoedd un rhyw, a'r posibilrwydd o ddisgwyl gweithgarwch rhywiol yn fuan wedi rhoi genedigaeth:

> 'Mae gen i alergedd latecs, ac mewn gwirionedd mae'n ormod o ragdybiaeth darparu'r rhain heb ofyn i'r darpar rieni. Byddai'n well cynnig y rhain ar wahân yn ystod y gofal cyn geni/ar ôl geni.' Un o ymatebwyr yr arolwg rhieni.

> 'Condomau – Rwy'n credu os yw hyn i bawb eich bod chi'n targedu teulu gwahanrywiol. Byddai rhieni sengl/teuluoedd un rhyw fel fi yn teimlo bod hyn ddim yn gynhwysol, ac rwy'n teimlo ei fod allan o le mewn pecyn cychwynnol i rieni a babanod.' Un o ymatebwyr yr arolwg rhieni.

> 'Condomau – mae'r rhain ar gael am ddim beth bynnag, a dydyn nhw ddim yn addas i rieni sydd â phroblemau cenhedlu, etc. Hefyd gallai greu disgwyliad i gael rhyw yn fuan ar ôl rhoi genedigaeth!' Un o ymatebwyr yr arolwg rhieni.

3.18 Roedd barn gymysg ynghylch condomau yn y grwpiau ffocws i rieni hefyd. Teimlai rhai cyfranogwyr nad oedd condomau yn 'cydweddu' ag ethos y bwndel babi, a'u bod allan o le, tra bod eraill yn teimlo y byddai cynnwys un neu ddau gondom yn y bwndel (yn hytrach na llond blwch) yn ddefnyddiol. Roedd rhai cyfranogwyr yn ffafrio cynnwys condomau yn y bwndel 'rhag ofn', gan gyfeirio at ffrindiau oedd wedi beichiogi eto'n fuan ar ôl rhoi genedigaeth. Er y cydnabyddid bod y rhain ar gael yn hwylus i'w prynu, neu bod modd eu cael am ddim o glinigau iechyd rhywiol, awgrymwyd na fyddai rhieni newydd o reidrwydd wedi paratoi, ac felly y gallai eu cynnwys atal beichiogrwydd oedd heb ei gynllunio.

3.19 Nid oedd rhieni yn y grŵp ffocws Sipsiwn, Roma a Theithwyr o blaid cynnwys condomau yn y bwndel. Nid oedd y rhieni hyn yn teimlo bod condomau yn cydweddu â gweddill eitemau'r bwndel, ac roedden nhw hefyd yn pryderu y gallai eu plant hŷn gael hyd i'r condomau (gan eu bod yn debygol o gael mynediad at y bwndel); nododd y rhieni hyn na fyddent yn dymuno gorfod esbonio beth yw condomau, nag wynebu'r risg y gallai eu plant eraill drin a thrafod condomau.

*Barn Gweithwyr Proffesiynol a Rhanddeiliaid*

3.20 Roedd barn gymysg ynghylch condomau gan weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid. Amlygodd sawl un y byddai eu cynnwys yn ddefnyddiol i ategu negeseuon ynghylch atal cenhedlu a rhyw diogel. Teimlai eraill fod cyngor rhywiol a chynllunio teulu ar gael mewn mannau eraill, nad oedd yr eitem hon yn gynhwysol, ac felly nad oedd yn cyd-fynd â'r bwriad i sicrhau bod y cynllun bwndeli babi yn addas i bawb.

> 'Fyddwn i ddim yn argymell rhoi condomau yn y pecyn, dylai'r ffocws fod ar y fam a'r baban, nid ar atal cenhedlu; dyw condomau ddim yn addas i bawb, ac mae hyn yn rhagdybiaeth ynghylch trefniadau cynllunio teulu.'
> Un o ymatebwyr yr arolwg gweithwyr proffesiynol.

3.21 Cafwyd awgrym gan randdeiliaid y gallai rhai cymunedau gamddeall pam roedd condomau wedi'u cynnwys. Amlygwyd y gallai fod yn ddiwylliannol amhriodol, a bwydo'r canfyddiad camarweiniol bod awydd i gyfyngu ar nifer y plant sy'n cael eu geni mewn rhai cymunedau. Yn ystod y cyfweliadau,

mynegodd dau weithiwr sy'n cynorthwyo rhieni sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid eu bod yn credu y gallai cynnwys condomau yn y bwndel babi gyfleu'r neges na ddylai'r teuluoedd yma gael rhagor o blant nawr eu bod wedi dod i'r Deyrnas Unedig.

3.22 Teimlai rhanddeiliaid eraill oedd yn cefnogi darpar rieni nad oedd condomau'n briodol i bob math o deulu, megis cyplau o'r un rhyw neu rieni sengl lesbiaidd, ac y byddai eu cynnwys yn mynd yn groes i ethos cynhwysedd y bwndel. Ar ben hynny, teimlid nad oedd condomau'n angenrheidiol, gan nad yw llawer o'r teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi yn dymuno atal beichiogrwydd. Gwnaeth rhai rhanddeiliaid y sylw nad oedd yr eitem hon yn cydweddu â gweddill cynnwys y bwndel.

3.23 Roedd barn gymysg gan y ddau sefydliad rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fel sefydliadau cynrychioliadol, teimlid y gallai condomau fod yn ddefnyddiol i agor trafodaethau rhwng rhieni, yn enwedig mamau, a gweithwyr cefnogi ar atal cenhedlu a beichiogrwydd pellach wedi hynny, ond roedd y sefydliadau rhanddeiliaid hefyd yn credu na fyddai'r mamau a'r rhieni eu hunain yn dymuno i gondomau gael eu cynnwys yn y bwndel, gan y byddent yn debygol o deimlo'n anghyfforddus yn trafod rhyw.


3.24 Teimlai rhai rhanddeiliaid y byddai cynnwys condomau yn ddefnyddiol i osgoi beichiogrwydd annisgwyl, neu y gellid cynnwys gwybodaeth am ffrwythlondeb ar ôl rhoi genedigaeth i wrthweithio'r canfyddiad camarweiniol nad oes modd beichiogi'n fuan ar ôl geni baban. Rhybuddiodd eraill yn erbyn cynnwys condomau mewn rhodd o eitemau i'r baban, gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd condomau'n cael eu ffafrio gan bawb fel dull atal cenhedlu, ac nad oeddent yn addas i bawb (megis teuluoedd un rhyw, rhai ag alergeddau, neu am resymau crefyddol).

**Eitemau amldro i'w golchi**

3.25 Gofynnwyd i rieni, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol roi eu barn ar gynnwys eitemau amldro i'w golchi yn y bwndel. Nodwyd yr eitemau hyn yn benodol fel pecyn cychwynnol o gewynnau amldro, padiau mamolaeth amldro ar ôl rhoi genedigaeth, a phadiau bronnau amldro. Gofynnwyd hefyd


i'r ymatebwyr awgrymu eitemau eraill amldro y gellid eu cynnwys yn y bwndel i roi hwb i ystyriaethau amgylcheddol.

**Ffigur 3.6: Pa mor debygol fyddai'r eitemau canlynol o gael eu defnyddio petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel gawsoch chi? Arolwg rhieni (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Rhieni (n=1,077)

**Ffigur 3.7: Yn eich barn chi, pa mor debygol fyddai rhieni o ddefnyddio'r eitemau canlynol petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (%)**




Ffynhonnell: Arolwg y Gweithwyr Proffesiynol (n=237)

*Barn rhieni ar gewynnau amldro*

3.26 Roedd barn gymysg yn yr arolwg a'r grwpiau ffocws ynghylch yr awydd i ddefnyddio cewynnau amldro/i'w golchi. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gadarnhaol, gan eu bod eisoes wedi defnyddio cewynnau amldro, tra bod eraill heb brofiad o'u defnyddio, ac yn dweud nad oeddent yn awyddus i'w profi.

> 'Mae cewynnau amldro yn wych, ond rwy'n credu mai lleiafrif fyddai'n eu defnyddio, felly efallai na fyddai'n gost effeithiol, hyd yn oed os yw'n llesol i'r amgylchedd.' Un o ymatebwyr yr arolwg rhieni

> 'Fyddwn i ddim yn dweud bod cewynnau amldro yn ddelfrydol i fabanod newyddanedig, gan fod angen eu newid mor aml, byddai cewynnau amldro yn creu llawer o waith ychwanegol, gwaith golchi etc.' Un o'r ymatebwyr i'r arolwg rhieni

3.27 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd o blaid cewynnau amldro naill ai wedi'u defnyddio o'r blaen ac felly'n brofiadol, neu'n chwilfrydig am yr eitemau ac am roi cynnig arnyn nhw. Amlygodd rhieni ystyriaethau amgylcheddol a rhesymau ariannol dros ddymuno defnyddio neu roi cynnig

ar gewynnau amldro, yn fwyaf amlwg lleihau'r defnydd o eitemau untro a disgwyl arbed arian yn y pen draw. Ar ben hynny, roedd rhai rhieni am ystyried beth fyddai'n digwydd i'r cewyn yn y pecyn cychwynnol, ac a oedd modd defnyddio hwnnw. Roedden nhw'n teimlo, petai cewynnau amldro yn cael eu hyrwyddo a'u cynnwys yn y bwndel, y byddai hynny'n bwysig o safbwynt cynaliadwyedd tymor hir.

3.28 Roedd y rhai oedd o blaid cewynnau amldro yn ffafrio'r meintiau mwy, gan nodi fel prif reswm bod eu defnyddio yn yr wythnosau cyntaf ar ôl yr enedigaeth yn llai tebygol. Esboniwyd hyn yn nhermau bod yn flinedig ac wedi'u llethu gan bwysau gofal am faban newyddanedig, a bod ymrwymo i gewynnau amldro yn anodd mor gynnar â hynny. Dywedodd y rhieni hyn y bydden nhw'n llawer mwy tebygol o roi cynnig ar gewynnau amldro, neu ddechrau eu defnyddio, unwaith roedd eu baban heibio'r cyfnod newyddanedig.

3.29 Nododd yr ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent o blaid cewynnau amldro amrywiaeth o resymau dros fod yn amharod i'w defnyddio neu roi cynnig arnynt. Roedd hyn yn cynnwys amharodrwydd i wynebu gwaith golchi a sychu ychwanegol, anawsterau i sicrhau'r 'ffit' cywir, a gollyngiadau posibl (yn enwedig yn achos babanod newyddanedig), amlder eu newid, nifer y cewynnau fyddai'n angenrheidiol, a chost ariannol golchi a sychu ychwanegol yn ystod cyfnod o brisiau ynni uchel ac argyfwng costau byw:

> 'Rwy'n dwlu ar y syniad o gewynnau amldro er lles yr amgylchedd, ond yn ymarferol, fel mam i faban newyddanedig does gennych chi mo'r amser na'r egni'. Un o'r ymatebwyr i'r arolwg rhieni.

3.30 Amlygodd nifer o ymatebwyr yr arolwg a'r grwpiau ffocws gynlluniau eraill y gellid buddsoddi ynddynt, cyfeirio ymlaen atynt, neu greu cysylltiad â nhw fel rhan o'r cynllun bwndeli babi. Roedd y rhain yn cynnwys llyfrgelloedd benthyg cewynnau, cymhellion rhai awdurdodau lleol i roi cynnig ar gewynnau amldro, a chynlluniau cynghorau i roi arian yn ôl a luniwyd i annog pobl i'w defnyddio.

3.31 Roedd sawl un o'r cyfranogwyr yn y grŵp ffocws cyfrwng Saesneg eisoes yn defnyddio cewynnau amldro ac wedi ymrwymo i'r cysyniad, ond gallent ragweld problemau wrth gynnwys pecynnau treialu heb roi mwy o

gefnogaeth i annog defnydd tymor hir. Roeddent yn amlygu bod Llyfrgelloedd Benthyg Cewynnau yn lleoedd da i'w defnyddio oherwydd bod mynediad at ystod o feintiau a brandiau i'w profi, ond nad oes gan bob ardal lyfrgell benthyg cewynnau, a bod rhai llyfrgelloedd benthyg yn cau oherwydd diffyg arian.

*Barn rhieni – eitemau eraill amldro*

3.32 Roedd cefnogaeth ymhlith ymatebwyr yr arolwg rhieni i badiau bronnau amldro, a dywedodd mwyafrif o ymatebwyr yr arolwg (76.6 y cant) eu bod yn debygol iawn neu bod rhywfaint o debygolrwydd y byddent yn defnyddio padiau bronnau amldro petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel. Er i rai ymhelaethu ar eu hatebion i egluro eu bod eisoes wedi'u defnyddio neu'n awyddus i roi cynnig arnyn nhw, teimlai rhai ymatebwyr eraill y gallai'r rhain gael eu gwastraffu.

3.33 Codwyd rhai pryderon ynghylch cynnwys padiau mamolaeth. Gwnaeth rhai sylwadau bod y syniad o badiau mamolaeth amldro 'ddim yn ddeniadol', a soniwyd am bryderon hylendid neu y byddai'r golchi ychwanegol yn drafferth yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl rhoi genedigaeth. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn debygol iawn o'u defnyddio neu bod rhywfaint o debygolrwydd o wneud hynny (65 y cant) ac aeth rhai mor bell ag awgrymu y gallai defnyddio padiau mamolaeth amldro annog menywod i ddefnyddio cynnyrch mislif eraill amldro yn y dyfodol. Cafwyd rhai sylwadau eraill yn nodi na fyddai eitemau amldro o reidrwydd yn addas i bawb.

> 'Rwy'n dwlu ar y syniad o gewynnau a phadiau mamolaeth amldro. Ond rwy'n anabl, a gwaetha'r modd bydd angen i mi wneud fy mywyd mor rhwydd â phosib pan fydd y babi'n cyrraedd, ac mae hynny'n golygu defnyddio eitemau untro.' (Arolwg Rhieni)

3.34 Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn gyffredinol yn croesawu cynnwys eitemau amldro, gan gynnwys padiau mamolaeth a phadiau bronnau. Nid oedd y mwyafrif wedi defnyddio'r rhain, nac wedi clywed am fersiynau i'w golchi ohonynt yn y gorffennol, ac roedden nhw'n teimlo y byddai cynnwys yr eitemau hyn yn y bwndel yn rhoi hwb iddyn nhw roi cynnig arnynt.

3.35 Awgrymodd ymatebwyr yr arolwg rhieni a’r grwpiau ffocws y gallai’r bwndeli gynnwys weips babanod amldro yn hytrach na rhai untro. Roedd llawer ohonynt wedi’u defnyddio yn y gorffennol ac yn teimlo bod y rhain yn eitem cost isel a allai annog rhieni i newid i ddewis llesol i’r amgylchedd.

*Barn Gweithwyr Proffesiynol a Rhanddeiliaid – cewynnau amldro*

3.36 Roedd nifer o’r rhanddeiliaid a’r gweithwyr proffesiynol o’r farn bod cynnwys pecyn cychwynnol o gewynnau yn syniad da ac roedden nhw’n croesawu’r ffocws amgylcheddol hwn yn y bwndel. Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif wedi gweithio gyda rhieni oedd i weld â diddordeb mewn cewynnau amldro, nac wedi cael trafodaethau gydag unrhyw rieni ynghylch cewynnau amldro. Teimlid felly na fyddai’r pecyn cychwynnol yn debygol o gael ei ddefnyddio, ac y byddai’n cael ei wastraffu.

> ‘Dwy ddim yn credu byddai llawer o’r rhieni yn ein llwyth achosion yn defnyddio’r cewynnau amldro oherwydd cost eu golchi a’u sychu.’ Un o ymatebwyr yr arolwg Gweithwyr Proffesiynol.

3.37 Pan restrwyd cynnwys y pecyn cychwynnol o gewynnau (un lapiad allanol a phum leinin), nodwyd bod hynny’n ymddangos yn rhy ychydig i rieni fedru treialu eu defnydd yn ystyrlon, ac y dylai’r bwndel gynnwys pecyn cychwynnol mwy o faint. Ar ben hynny, codwyd yr angen am sicrhau’r maint cywir, fel yn adborth y rhieni. Soniodd gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid y gallai’r meintiau newyddanedig arwain at ollyngiadau, ac y gallai hynny ddigalonni rhieni oedd yn rhoi cynnig ar gewynnau amldro am y tro cyntaf. Fel yn achos ymatebion y rhieni, nodwyd y byddai meintiau oed hŷn yn opsiwn gwell petai pecyn cychwynnol yn cael ei gynnwys, ac y dylid darparu cyfarwyddiadau clir gyda’r pecyn ynghylch sut i ddefnyddio cewynnau amldro a’r ffit/meintiau cywir.

3.38 Teimlai’r rhanddeiliaid y byddai’r pecyn cychwynnol yn dda i sbarduno trafodaeth ar fanteision newid i opsiynau llesol i’r amgylchedd, ond roedd angen pwyso a mesur hynny yn erbyn cost cynnwys eitem na fyddai cyfran dda yn dewis ei defnyddio.

3.39 Nododd rhanddeiliaid y byddai llawer o rieni roedden nhw'n gweithio gyda nhw yn cael trafferth gwneud golchi a sychu dillad ychwanegol oherwydd cyfyngiadau ariannol, a chyfeiriwyd at hynny fel rhwystr yng nghyswllt newid i gynhyrchion amldro. Ar ben hynny, amlygodd y rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr fod llawer o rieni heb gyfleusterau digonol i sychu yn yr aer na lle yn eu cartref yn eu math nhw o lety, ac felly y bydden nhw'n annhebygol o ymrwymo i waith golchi a sychu ychwanegol.

3.40 Roedd cefnogaeth i'r syniad o ddarparu taleb ar gyfer cewynnau amldro yn hytrach na phecyn cychwynnol yn y bwndel.

> 'Gwaetha'r modd, dwy ddim yn credu byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dewis defnyddio'r eitemau amldro, gallen nhw ddefnyddio cewynnau untro er hwylustod. Ond rwy'n credu byddai cynnig hyn ar ffurf taleb yn dda'. Un o ymatebwyr yr arolwg Gweithwyr Proffesiynol.

3.41 Cyfeiriodd llawer o weithwyr proffesiynol at gynlluniau eraill fel Llyfrgelloedd Benthyg Cewynnau, a fyddai'n rhoi cyfle i rieni dreialu cewynnau yn eu hamser eu hunain, ac yn rhoi mwy o ddewis iddyn nhw o ran brand, maint a ffit.

*Barn Gweithwyr Proffesiynol a Rhanddeiliaid – eitemau eraill amldro*

3.42 Roedd gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid yn cefnogi cynnwys eitemau eraill amldro yn y bwndel, megis padiau mamolaeth a phadiau bronnau. Fodd bynnag, nododd yr ymatebwyr nad yw pob mam yn dymuno nac yn gallu bwydo ar y fron. Teimlid felly fod cynnwys padiau bronnau yn ddefnyddiol i'r rhai sydd yn bwydo ar y fron, ond y gallent gael eu gwastraffu mewn llawer o fwndeli, neu hyd yn oed beri trallod i'r rhai sy'n dymuno bwydo ar y fron, ond yn methu gwneud. Mewn cyferbyniad â hyn roedd barn mai eitem gymharol rad yw hon, sy'n cydweddu'n dda ag ethos a bwriad cynllun y bwndeli.

3.43 Nodwyd y dylai'r bwndel gynnwys cyfarwyddiadau clir ar hylendid a golchi eitemau amldro. Roedd pryder ynghylch rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i rieni i sicrhau bod eitemau'n hylan cyn eu defnyddio eto.

3.44 Nododd gweithiwr proffesiynol oedd yn cefnogi padiau mamolaeth a phadiau bronnau amldro y byddai angen darparu nifer digonol ohonynt i'w gwneud yn ddefnyddiol i famau oedd wedi rhoi genedigaeth. Y rheswm am hynny oedd amlder eu newid a bod angen caniatáu amser golchi a sychu cyn bod modd defnyddio'r padiau eto.

3.45 Awgrymwyd weips amldro gan randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol, yn unol ag ymatebion rhieni. Eto, gwelid y rhain fel eitem cost isel a allai annog rhieni i newid o gynnyrch untro.

**Slingiau/lapiadau**

*Barn rhieni*

3.46 Roedd barn gymysg ynghylch cynnwys sling yn y bwndel. Esboniodd rhai rhieni yn eu hymateb i'r arolwg neu yn nhrafodaeth y grŵp ffocws eu bod yn gyfarwydd â'r eitem ar ôl defnyddio un yn y gorffennol, a'u bod nhw'n teimlo y byddai'n dda cynnwys hyn yn y bwndel. Nid oedd gan rieni eraill brofiad o ddefnyddio un, ond roedd ganddyn nhw ddiddordeb mewn rhoi cynnig ar hynny gyda'u baban. Fodd bynnag, nid oedd rhai rhieni yn y grwpiau ffocws yn teimlo byddai'r eitem yma'n ddeniadol i bawb.

3.47 Gwnaeth rhieni nad oeddent yn gyfarwydd â slingiau sylw y bydden nhw'n rhoi cynnig ar un petai cyfarwyddiadau ac arweiniad ar ddefnydd priodol, diogel yn cael eu cynnwys. Ategwyd y syniad yma gan nifer o weithwyr proffesiynol.

> 'Rwy'n credu byddai angen ystyried yn ofalus gydag ymgynghorydd slingiau ynghylch teclyn cludo addas. Dylai hyn gynnwys dolen at ymgynghorydd lleol a chopi o'r canllawiau 'Ticio'. Un o ymatebwyr yr arolwg Rhieni.

3.48 Nododd llawer o ymatebwyr fod sawl math o sling ar gael, ac roedden nhw'n dyfalu pa fath fyddai'n cael ei gynnwys yn y bwndel. Nodwyd bod rhai slingiau yn ddrutach nag eraill, ond gwnaed sylwadau am gost gymharol isel lapiadau/slingiau ffabrig, yn hytrach na'r rhai mwy strwythuredig gyda byclau a phadiau. Nododd y rhieni hyn fod dewis personol yn bwysig, ac roedden

nhw'n pryderu, gan mai un math o sling yn unig fyddai'n cael ei gynnwys, na fyddai o reidrwydd yn addas i bawb, ac y byddai felly'n cael ei wastraffu.

3.49 Roedd 34 y cant o ymatebwyr yr arolwg yn cefnogi'r syniad o ddarparu taleb ar gyfer sling, yn hytrach na chynnwys yr eitem ei hun yn y bwndel. Roedd cytundeb y byddai cynnwys taleb yn hytrach na'r eitem ei hun yn rhoi cyfle i rieni oedd yn chwilfrydig ynghylch defnyddio sling roi cynnig ar hynny, fel bod llai o wastraff wrth i eitemau beidio â chael eu defnyddio. Yn dilyn hynny codwyd cwestiynau ymarferol ynghylch ble gellid defnyddio taleb sling, a sicrhau mai ar gyfer yr eitem hon yn unig y byddai'r daleb yn cael ei defnyddio.

*Barn Gweithwyr Proffesiynol a Rhanddeiliaid*

3.50 Roedd gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid yn gyffredinol yn cefnogi cynnwys slingiau. Adroddodd llawer nad oeddent yn gweithio gyda rhieni oedd yn tueddu i'w defnyddio, ond y byddai cynnwys yr eitem yn y bwndel yn fodd i annog mwy i wneud hynny.

3.51 Nododd rhai ymatebwyr i'r arolwg fod llyfrgelloedd benthyg slingiau mewn rhai ardaloedd, sy'n rhoi dewisiadau ac opsiynau i rieni ar gyfer rhoi cynnig ar wahanol fathau, a gweld beth sy'n fwyaf addas iddyn nhw. Roedd yr ymatebwyr hyn am wybod a fyddai'r bwndel yn creu cysylltiad â'r mathau yma o gynlluniau, ond roedd cydnabyddiaeth bod hyn yn amrywio o ardal i ardal, ac nad oes llyfrgelloedd benthyg slingiau ym mhob man.

3.52 Amlygodd gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid yr angen am gynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer slingiau, fel bod rhieni'n gallu eu defnyddio yn y modd cywir yn hyderus. Awgrymodd rhai y dylid darparu cyfarwyddiadau penodol ar gyfer defnyddio sling/lapiad baban trwy ddolen neu ddefnyddio cod QR ar gyfer cyfarwyddiadau fideo, oedd yn cwmpasu technegau gwisgo cywir a rhagofalon diogelwch. Ar ben hynny, roedd gweithwyr proffesiynol yn argymell y dylai'r cyfarwyddiadau ystyried anghenion amrywiol rhieni, er enghraifft trwy ddefnyddio iaith syml a lluniau.

3.53 Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o gynnwys taleb yn hytrach na sling yn y bwndel. Byddai hynny'n rhoi cyfle i'r rhieni ddewis y math mwyaf addas

drostynt eu hunain, ac yn arwain at lai o wastraff gan rieni nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio sling. Eto mynegwyd pryderon ynghylch a ellid defnyddio taleb yn benodol i brynu sling, ac os felly, o ba siop/gynllun. Fel y rhieni, holodd y gweithwyr proffesiynol a'r rhanddeiliaid a allai hyn arwain at dalebau'n cael eu defnyddio mewn modd gwahanol i'r bwriad gwreiddiol fel rhan o'r cynllun.

**Sachau cysgu**

*Barn rhieni*

3.54 Roedd rhieni'n croesawu cynnwys sachau cysgu i fabanod, ac roedd llawer eisoes wedi'u defnyddio. Yn ôl yr ymatebion i'r arolwg, barnwyd mai sachau cysgu oedd y drydedd eitem fwyaf defnyddiol, gydag 85 y cant o rieni'n dweud eu bod yn eitem ddefnyddiol iawn, ac 11 y cant arall yn dweud eu bod o rywfaint o ddefnydd.

3.55 Gwnaeth rhieni sylwadau am yr angen i ystyried pa faint a chynhesrwydd tog fyddai i'r sach gysgu yn y bwndel, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai *tog* trymach yn y meintiau iau yn anaddas i fabanod a aned yn yr haf, ac fel arall yn achos babanod a aned yn y gaeaf.

3.56 Tynnodd rhai rhieni sylw at y ffaith y dylid cynnwys cyfarwyddiadau ar ddefnydd diogel petai sach gysgu'n cael ei chynnwys yn y bwndel. Byddai angen cynnwys cyfarwyddyd ar ffitiad cywir (oed a phwysau'r babi) ac osgoi gorwresogi.

*Barn Gweithwyr Proffesiynol*

3.57 At ei gilydd, roedd y gweithwyr proffesiynol yn cefnogi cynnwys sach gysgu, a gwnaeth rhai y sylw bod y rhain yn eitemau cyffredin iawn y maent yn gweld eu teuluoedd yn eu defnyddio'n rheolaidd. Fodd bynnag, mynegodd rhai gweithwyr proffesiynol bryderon ynghylch diogelwch os nad oedd y maint neu'r cynhesrwydd *tog* yn gywir ar gyfer y baban.

3.58 Cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol yn aml at *The Lullaby Trust* fel adnodd allweddol wrth gynnig cyngor ac arweiniad i rieni ar gysgu diogel. Dywedodd

llawer eu bod yn teimlo y dylid cynnwys gwybodaeth gan *The Lullaby Trust* petai sachau cysgu yn rhan o'r bwndel. Roedd hynny er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r peryglon posibl, ond hefyd i sicrhau cysondeb yn ffynonellau'r cyngor oedd yn cael ei roi.

**Thermomedr bath ac ystafell**

*Barn rhieni*

3.59 Nodwyd y thermomedr bath ac ystafell fel y bumed eitem fwyaf defnyddiol gan rieni, gyda 77 y cant yn dweud y byddai'n ddefnyddiol iawn, a 15 y cant yn dweud y byddai o rywfaint o ddefnydd. Gofynnodd rhai rhieni am gynnwys cyfarwyddiadau gyda'r thermomedr, er mwyn sicrhau eu bod yn ei ddefnyddio'n gywir ac yn dilyn y canllawiau, yn arbennig yng nghyswllt peidio â gorwresogi ystafelloedd.

*Barn Gweithwyr Proffesiynol a Rhanddeiliaid*

3.60 Yn ôl y gweithwyr proffesiynol yn yr arolwg, y thermomedr bath ac ystafell oedd y bedwaredd eitem fwyaf defnyddiol, gyda 94 y cant yn barnu ei fod yn ddefnyddiol (roedd hyn yn cynnwys 78 y cant a ddywedodd 'defnyddiol iawn' ac 16 y cant a ddywedodd 'o rywfaint o ddefnydd'). Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol eu bod yn ffafrio annog rhieni i wneud 'prawf penelin' ar gyfer dŵr bath, fel dull mwy dibynadwy o sicrhau'r tymheredd cywir. Aed ar ôl y pwynt hwn mewn cyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol, a'r consensws oedd bod modd annog y 'prawf penelin' ochr yn ochr â defnydd o'r thermomedr bath. Roedd y gweithwyr proffesiynol hyn yn ffafrio bod y bwndel yn cynnwys y thermomedr, gan y byddai'n system wrth gefn ac yn cadarnhau barn rhieni wrth iddynt ddysgu ymddiried yn eu dulliau eu hunain o wirio'r tymheredd yn y tŷ.

3.61 Tynnodd un rhanddeiliad sylw at y ffaith bod cymhorthion gweledol yn aml yn rhan o declynnau yn y tŷ, er enghraifft eitemau sy'n newid lliw neu rai sy'n seinio larwm/chwarae cerddoriaeth pan fydd y sefyllfa'n ddelfrydol. Teimlai'r rhanddeiliad yma y dylid ystyried y mathau yma o nodweddion, i sicrhau bod y

bwndeli mor gynhwysol â phosibl. Nodwyd y byddai nodweddion o’r fath yn ddefnyddiol i bob rhiant, nid dim ond y rhai sydd â nam ar eu golwg.

**Eli tethi**

*Barn rhieni*

3.62 Roedd barn gymysg ynghylch cynnwys eli tethi yn y bwndel. Roedd llawer o rieni’n ei groesawu, gan nodi eu bod wedi bwydo’u babanod ar y fron ac wedi’i ddefnyddio o’r blaen, tra bod eraill heb fwriad i fwydo ar y fron/heb wneud hynny yn y gorffennol, ac felly ni fyddent yn ei ddefnyddio. Amlygodd y rhieni hyn y byddai’r eli’n cael ei wastraffu petai’n cael ei gynnwys ym mhob bwndel, ac y gallai wneud i famau newydd deimlo o dan bwysau neu’n euog os nad oeddent yn bwydo ar y fron.

> ‘Mae’r eli bwydo ar y fron yn syniad gwych i’r rhai sy’n bwydo ar y fron, ond i bobl fel fi sy’n methu bwydo ar y fron oherwydd diffyg cynhyrchu llaeth, neu’r rhai sydd ddim yn dymuno gwneud, byddai hyn yn wastraff arian, felly efallai dylai hyn fod yn ddewisol i’r rhai sydd am ei gael.’ Un o ymatebwyr yr arolwg Rhieni.

3.63 Dywedodd rhai rhieni y gallai eli tethi gael ei ddefnyddio gan rieni sydd angen cymorth gyda bwydo ar y fron (gan awgrymu bod tethi poenus ar ôl bwydo yn arwydd o broblem gyda’r cydio, neu rywbeth tebyg). Teimlai’r rhieni hyn y gallai pobl ragdybio bod bwydo ar y fron yn achosi poen y dylid ei drin ag eli, yn hytrach na bod hynny’n arwydd y dylid ceisio cyngor a chymorth arbenigol gan weithiwr proffesiynol. Yn yr achosion hyn, awgrymwyd y dylid cynnwys taflenni gwybodaeth ynghylch bwydo ar y fron, problemau cysylltiedig â bwydo ar y fron a chyngor ynghylch pryd i geisio cymorth yn y bwndel.

3.64 Yn achos y rhai oedd yn cefnogi rhoi’r eli tethi yn y bwndel, codwyd sawl ystyriaeth: sicrhau bod yr eli’n un nad oes angen ei sychu i ffwrdd cyn bwydo; cadw mewn cof bod rhai mathau o eli yn cynnwys cynhwysion y gallai fod gan rai pobl alergedd iddyn nhw (fel lanolin), neu y gallent fod yn anaddas ar gyfer croen sensitif; a sicrhau bod eli o safon uchel yn cael ei ddewis.

*Barn Rhanddeiliaid a Gweithwyr Proffesiynol*

3.65 Roedd y rhanddeiliaid yn gyffredinol yn cefnogi'r eli tethi, ac nid oeddent yn pryderu am ei gynnwys heblaw am y ffaith na fyddai pob teulu o reidrwydd yn ei ddefnyddio. Roedd un sefydliad rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith nad yw pob rhiant yn rhieni biolegol, ac felly na fyddai eli tethi yn berthnasol i bawb am amrywiaeth o resymau, nid dim ond y rhai sy'n dewis peidio bwydo ar y fron neu sy'n methu gwneud hynny.

3.66 Teimlai rhai gweithwyr proffesiynol y gallai cynnwys eli tethi awgrymu i famau newydd y byddai bwydo ar y fron yn debygol o achosi poen, ac y gallai hynny olygu na fydden nhw'n awyddus i ddechrau bwydo ar y fron, a nododd sawl un, o'i wneud yn gywir, na fydd bwydo ar y fron yn achosi tethi poenus. Fel yn ymatebion y rhieni, teimlid y gellid gwrthweithio hyn trwy gynnwys cyngor a gwybodaeth ynghylch bwydo ar y fron, gan gynnwys pryd y dylid ceisio cefnogaeth gan arbenigwr.

> 'Byddwn i'n awgrymu bod eli bwydo ar y fron yn creu'r argraff bod angen hynny bob amser, ond dyw hynny ddim yn wir. Rwy'n cymryd y byddai'n hysbysebu brand penodol, ac yn awgrymu bod tethi poenus yn rhan anochel o fwydo ar y fron' (Arolwg Gweithwyr Proffesiynol/Ymwelydd Iechyd)

3.67 Amlygodd gweithwyr proffesiynol ymhellach nad oedd eli tethi yn cymryd lle cefnogaeth briodol gyda bwydo ar y fron, a gwnaeth un gweithiwr proffesiynol y sylw nad yw'r brandiau amlycaf o eli tethi yn cydymffurfio â Chod Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Farchnata cynhyrchion sy'n cymryd lle llaeth y fron, y mae rhwymedigaeth ar wasanaethau i'w ddilyn gan fod achrediad Llesol i Fabanod wedi'i wreiddio yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Bwydo ar y Fron.

> '"Nid [yw] eli bwydo ar y fron" yn cymryd lle cefnogaeth briodol gyda bwydo ar y fron, ac nid yw'r brandiau amlycaf yn cydymffurfio â Chod WHO ar Farchnata cynhyrchion sy'n cymryd lle llaeth y fron, y mae rhwymedigaeth ar wasanaethau i'w dilyn, gan fod achrediad Llesol i Fabanod wedi'i wreiddio yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Bwydo ar y Fron.' (Sylwadau a gyflwynwyd yn uniongyrchol i'r gwaith ymchwil)

3.68 Teimlai rhai gweithwyr proffesiynol y gallai cynnwys eli tethi ym mhob bwndel arwain at wastraff, gan na fyddai pawb yn ei ddefnyddio. I leihau hyn, awgrymodd rhai gweithwyr proffesiynol gynnwys potiau/tiwbiau bach o eli tethi yn samplau neu i'w treialu, yn hytrach na'r potiau/tiwbiau mwy, maint llawn. Cyfeiriodd un gweithiwr proffesiynol at yr eitemau maint treialu oedd yn cael eu cynnwys ym mhecyn Bounty o samplau cynnyrch babanod fel ateb posibl, fel bod rhieni a oedd am ddefnyddio'r eli hwn yn gallu gwneud, ond gan leihau gwastraff posibl potiau maint llawn.

**Bag newid ar ffurf sach gefn**

3.69 Er bod mwyafrif y rhieni yn yr arolwg o blaid y bag newid ar ffurf sach gefn (teimlai 68 y cant y byddent yn ddefnyddiol iawn, a theimlai 20 y cant y byddai rhywfaint o ddefnyddioldeb iddyn nhw, teimlad llawer o rieni yn y grwpiau ffocws, yn ogystal â'r rhanddeiliaid a'r gweithwyr proffesiynol, oedd bod rhieni'n tueddu i hoffi prynu un drostynt eu hunain. Paru'r bag newid a'r pram oedd y prif reswm a nodwyd yn aml, a hefyd y ffaith bod yr eitem yma'n ddewis personol iawn. Yn cydbwyso hynny roedd barn rhai rhanddeiliaid y byddai'r rhai ar incwm isel yn gwerthfawrogi eitem 'ddrud' fel hon, ac y byddai'n cael llawer o ddefnydd.

3.70 Mae canlyniadau arolwg peilot 2021 yn dangos barn gymysg ynghylch defnyddioldeb y bag newid ar ffurf sach gefn. Roedd y rhieni a ymatebodd i'r arolwg yn bwriadu defnyddio'r rhan fwyaf o'r eitemau yn eu bwndel babi. O'r eitemau hynny, y bag oedd yr eitem leiaf tebygol o fod wedi cael ei defnyddio ar adeg yr arolwg, ond roedd mwyafrif o'r rhieni (44 o 57) yn dal i fwriadu defnyddio'r eitem hon. Er bod rhai o'r rhieni a gafodd gyfweliad yn teimlo mai'r bag oedd un o'r eitemau mwyaf defnyddiol, dywedodd eraill nad oedd wedi cael ei ddefnyddio. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o'r rhieni wedi defnyddio'r bag naill ai fel prif fag neu fel ail fag. Nid oedd consensws ynghylch defnyddioldeb y bag newid ar ffurf sach gefn. Disgrifiodd 5 o'r 16 o rieni a gafodd gyfweliad hwn fel un o'r eitemau mwyaf defnyddiol, ond dywedodd 5 arall nad oedd wedi cael ei ddefnyddio. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni wedi ei ddefnyddio naill ai fel prif fag, neu fel ail fag.

**Eitemau eraill y gellid eu cynnwys**

*Barn rhieni*

3.71 Rhoddodd cyfanswm o 617 o rieni awgrymiadau yn yr arolwg ar eitemau ychwanegol y gellid eu cynnwys, ac roedd llawer o'r awgrymiadau yn debyg i'r hyn a ddywedwyd gan weithwyr proffesiynol. Yr eitem a awgrymwyd amlaf gan rieni oedd cewynnau untro (a awgrymwyd gan ryw 100 o rieni), gyda weips, eli cewynnau a photeli a llaeth fformwla yn dilyn. Ymhlith yr eitemau eraill gafodd eu hargymell, a hynny gan o leiaf 25 o ymatebwyr, roedd llyfr babi, llieiniau mwslin, blanced, tegan synhwyraidd, a theganau eraill. Eitemau eraill a awgrymwyd gan lai o rieni oedd amrywiol eitemau dillad bychain, eitemau gofal fel siswrn ewinedd, brws dannedd babi, dymi, ac eitemau meddygol fel diferion fitaminau a chwistrell trwyn.

3.72 Yn ystod trafodaethau grwpiau ffocws gyda rhieni, mynegwyd awydd i gael cewynnau untro a photeli a llaeth fformwla. Er i hyn gael ei awgrymu ym mhob grŵp ffocws, disgrifiwyd y rhain fel eitemau blaenoriaeth yn y trafodaethau gyda rhieni oedd yn ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r grŵp rhieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er bod rhai rhieni yn cydnabod y rhesymau posibl dros beidio â chynnwys yr eitemau hyn, roedden nhw'n pwysleisio y byddai croeso mawr iddynt, ac y byddent yn cael llawer o ddefnydd. Ategwyd y pwynt hwn mewn rhai o'r cyfweliadau gyda sefydliadau rhanddeiliaid.

*Barn gweithwyr proffesiynol*

3.73 Yn yr arolwg, gofynnwyd barn gweithwyr proffesiynol ynghylch eitemau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y bwndel. O'r 238 o ymatebwyr, cynigiodd 110 awgrymiadau. Yr eitem a awgrymwyd amlaf oedd llyfr babi. Ar ben hynny, argymhellodd 10 gweithiwr proffesiynol ychwanegu cewynnau untro, ac awgrymodd nifer tebyg o ymatebwyr gynnwys eli cewynnau. Ymhlith yr awgrymiadau eraill a nodwyd gan 5 neu fwy o weithwyr proffesiynol roedd llieiniau mwslin, weips gwlyb (rhai untro a rhai amldro), eitemau bwydo o botel, blanced a thegan.

### Cynlluniau eraill tebyg sydd ar gael

3.74 Holwyd yr ymatebwyr i'r arolwg gweithwyr proffesiynol a oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau neu wasanaethau yn ardal eu hawdurdod lleol neu eu bwrdd iechyd sydd eisoes yn darparu'r un eitemau newydd neu rai tebyg i rieni yn ddi-dâl. Soniodd y cyfranogwyr am y canlynol:

| **Bwrdd iechyd yr ymatebydd** | **Cynlluniau sydd eisoes yn bodoli** |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Banciau/elusennau lleol i fabanod (heb nodi pa rai'n union)<br>Prosiectau lleol rhaglen trawsffurfio'r blynyddoedd cynnar<br>Digwyddiadau cyfnewid yn lle siopa<br>Pecynnau Bounty<br>Yng Nghasnewydd, mae blychau geni yn cael eu rhoi i ddarpar rieni yn yr ardaloedd beilot Pathfinder |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Baby Basics<br>Home start<br>Banc Plant Caer<br>Llyfrgelloedd slingiau lleol<br>Dechrau'n Deg – tywelion bath â chwfl yn cael eu darparu yn Sir Ddinbych |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Banciau/elusennau lleol i fabanod (heb nodi pa rai'n union)<br>Banc babanod 'Little smarties'<br>Banc babanod 'Cwtsh'<br>Dechrau'n Deg – mae'n darparu eitemau fel cwpanau, brwshys dannedd a phast dannedd |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Banc babanod Cwtsh |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Banciau/elusennau lleol i fabanod (heb nodi pa rai'n union)<br>Plant Dewi<br>Byddin yr Iachawdwriaeth<br>Llyfrgelloedd cewynnau |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Powys | Byddin yr Iachawdwriaeth |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Banciau/elusennau lleol i fabanod (heb nodi pa rai'n union)<br>Best Beginnings<br>Llyfrgelloedd slingiau<br>Mae Dechrau'n Deg – Castell-nedd yn darparu slingiau/lapiadau gyda chyfarwyddyd gan aelod staff a hyfforddwyd |

3.75 Yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws, soniodd rhai rhieni hefyd am gynlluniau lleol sy'n tueddu i dargedu'r teuluoedd â'r angen mwyaf.

3.76 Yn ôl rhai gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid a gafodd gyfweliad, mae'n hanfodol bod y cynllun bwndeli babi yn sicrhau nad yw'n dyblygu unrhyw wasanaethau sydd eisoes yn bodoli, ac yn lle hynny dylai gydweithio â'r gwasanaethau lleol hyn a chynlluniau eraill. Mae'r gweithwyr proffesiynol a'r


rhanddeiliaid hyn hefyd yn teimlo ei fod yn bwysig bod gan y cynllun bwndeli babi gynllun cyfathrebu clir sy'n gwahaniaethu rhyngddo a chynlluniau eraill, fel ei fod yn haws i rieni ddeall y gwahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw.

**Talebau**

*Barn rhieni*

3.77 Mae Ffigur 3.7 yn dangos sut byddai ymatebwyr i'r arolwg rhieni yn ffafrio derbyn rhai eitemau iechyd a phersonol a rhai eitemau tymhorol. Eitemau tymhorol e.e. siwt gysgu gynnes neu siaced aeaf oedd yn cael eu dewis amlaf i gael eu derbyn ar ffurf taleb o gymharu â'r eitemau eraill a restrwyd, gydag ychydig dros 2 o bob 5 (42 y cant) yn dweud y byddent yn dewis derbyn hyn ar ffurf taleb. Yr eitemau oedd yn cael eu dewis leiaf aml i'w derbyn ar ffurf taleb oedd padiau mamolaeth a chondomau (14 y cant ac 13 y cant yn eu tro). Fodd bynnag, roedd yr eitemau hyn yn cael eu hystyried yn fwy sensitif na rhai o'r eitemau eraill (gweler 3.16 ymlaen). Mae'n bwysig nodi bod cyfran uwch o'r ymatebwyr wedi dweud yr hoffent dderbyn yr holl eitemau yn y bwndel, yn hytrach nag ar ffurf taleb, neu nad oeddent am dderbyn yr eitemau o gwbl. Mae hyn yn wir heblaw am y condomau, lle roedd mwy na thraean (36 y cant) yn dweud nad oeddent am eu derbyn o gwbl, o gymharu â 30 y cant fyddai'n hoffi eu derbyn yn y bwndel.


**Ffigur 3.8 Sut byddech chi'n dewis derbyn yr eitemau canlynol, os o gwbl? Arolwg Rhieni (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Rhieni (n=1,076)

3.78 Mae Ffigur 3.9 yn dangos sut byddai ymatebwyr i'r arolwg rhieni yn dewis derbyn rhai eitemau iechyd a phersonol, a rhai eitemau tymhorol, ar ôl eithrio'r rhai a atebodd na fyddent am dderbyn yr eitem o gwbl. Mae'r canlyniadau'n debyg i'r rhai yn ffigur 3.8 yn achos y rhan fwyaf o eitemau, a gwelir y gwahaniaeth mwyaf yn achos condomau, lle byddai 22 y cant yn ffafrio eu derbyn ar ffurf taleb, a 47 y cant yn ffafrio eu derbyn yn y bwndel, ar ôl eithrio'r rhai nad oeddent am gael condomau o gwbl.

**Ffigur 3.9 Sut byddech chi'n dewis derbyn yr eitemau canlynol, os o gwbl? Arolwg Rhieni – heb gynnwys y rhai a ddywedodd nad oeddent am dderbyn yr eitemau o gwbl (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Rhieni. Roedd nifer yr ymatebwyr yn amrywio: eitemau tymhorol, n=1066; lapiad/sling baban, n=1026; pecyn cychwynnol o gewynnau amldro, n=892; eli tethi, n=956; padiau bronnau, n=974; condomau, n=683; padiau mamolaeth, n=1,012.

3.79 Darparodd rhai rhieni oedd yn ymatebwyr sylwadau pellach ynghylch cynnwys talebau ar gyfer rhai eitemau. Teimlai'r rhai oedd yn ffafrio talebau fod hyn yn ddefnyddiol yn achos rhai eitemau er mwyn i'r rhieni fedru cael mwy o ddewis, a gallu prynu pethau mwy penodol iddyn nhw (e.e. y meintiau dillad cywir etc.). Teimlai eraill y byddai'n well darparu'r eitemau yn y bwndel i sicrhau bod gan rieni'r eitemau defnyddiol hyn, na fyddent o bosib yn mynd allan i'w prynu eu hunain, hyd yn oed petai taleb ganddyn nhw.


> 'Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o eitemau sy'n cael eu darparu yn y bwndel yn gallu helpu i roi arweiniad i rieni newydd a allai gael eu drysu (yn enwedig pan fyddan nhw wedi blino!) gan yr amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer gwahanol eitemau. Os yw talebau'n cael eu darparu, dylai canllawiau manwl gael eu darparu hefyd.' Un o ymatebwyr yr arolwg Rhieni

> 'Daeth fy maban i cyn pryd, felly byddai taleb yn ddefnyddiol i mi fedru prynu dillad pitw iddi.' Un o ymatebwyr yr arolwg Rhieni.

*Barn Gweithwyr Proffesiynol a Rhanddeiliaid*

3.80 Mae Ffigur 3.10 yn dangos sut byddai ymatebwyr i'r arolwg gweithwyr proffesiynol yn dewis bod rhieni'n derbyn rhai eitemau iechyd a phersonol a rhai eitemau tymhorol. Ymatebodd y gweithwyr proffesiynol mewn modd tebyg i'r rhieni, gydag ychydig yn fwy yn dweud eu bod yn ffafrio rhoi talebau i rieni ar gyfer rhai eitemau na'r nifer o ymatebwyr i'r arolwg rhieni a ddywedodd hynny.


**Ffigur 3.10 Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddarparu'r eitemau canlynol, os o gwbl? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (n=236)

3.81 Mae Ffigur 3.11 yn dangos sut byddai ymatebwyr yr arolwg gweithwyr proffesiynol yn ffafrio bod rhieni'n derbyn rhai eitemau iechyd a phersonol a rhai eitemau tymhorol, ar ôl eithrio'r rhai a atebodd na fyddent am weld yr eitemau'n cael eu cynnwys o gwbl. Mae'r canlyniadau'n debyg i'r rhai yn ffigur 3.10 heb ond mymryn o wahaniaeth yn y canrannau.

**Ffigur 3.11 Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddarparu'r eitemau canlynol, os o gwbl? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol - heb gynnwys y rhai a ddywedodd 'ni ddylid cynnwys' (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol. Roedd nifer yr ymatebwyr yn amrywio: pecyn cychwynnol o gewynnau amldro, n=221; lapiad/sling baban, n=206; eitemau tymhorol, n=215; eli tethi, n=214; padiau bronnau, n=232; condomau, n=213; padiau mamolaeth, n=231.

3.82 Yn ystod y cyfweliadau gwaith maes mynegodd gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid farn y gellid cynnwys talebau yn y bwndel yn ddidrafferth, cyhyd â'u bod ar gyfer siopau stryd fawr neu archfarchnadoedd hygyrch. Nododd rhai gweithwyr proffesiynol fod talebau'r Cynllun Cychwyn Iach yn enghraifft dda o'r dull hwn, gan eu bod eisoes wedi ennill eu plwyf ac yn awr yn cael eu darparu ar ffurf e-gardiau electronig.[6] Yn ystod y trafodaethau, nid oedd y rhan fwyaf o'r rhieni'n gwrthwynebu cynnwys talebau, ond cododd ambell un bryderon ynghylch sicrhau bod y talebau'n cael eu defnyddio'n unol â'r bwriad. Pwysleisiwyd eu bod am sicrhau bod y talebau'n cael eu gwario dim ond ar eitemau a fyddai o fudd i'r baban newydd, ac y byddent yn cael eu defnyddio'n briodol.


[6] Get help to buy food and milk (Healthy Start)

**Bwndel Llai**

*Barn Rhieni*

3.83 Roedd yr arolwg yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn ystyried darparu dau fath o fwndel babi. Un ar gyfer rhieni sy'n cael eu plentyn cyntaf, ac ail fwndel tebyg ar gyfer rhieni sydd â phlant eisoes. Diben hyn yw lleihau dyblygu neu wastraff ymhlith y rhai sydd o bosib eisoes yn berchen ar rai o'r eitemau hanfodol hyn. Rhoddwyd rhestr o eitemau i'r ymatebwyr yn yr arolwg, a'u holi pa rai ohonynt roedden nhw'n tybio ddylai gael eu cynnwys yn y bwndel llai. Yr eitem fwyaf poblogaidd i'w chynnwys ymhlith y rhieni oedd padiau mamolaeth (78 y cant), gyda siwtiau cysgu a siwtiau undarn (75 y cant) a phadiau bronnau (68 y cant) yn dilyn.

**Ffigur 3.12: Pa rai o'r eitemau canlynol rydych chi'n meddwl ddylai gael eu cynnwys mewn bwndel llai? Arolwg Rhieni**




Ffynhonnell: Arolwg Rhieni (n=1,058)


*Barn Gweithwyr Proffesiynol*

3.84 Cafwyd atebion tebyg i'r cwestiwn hwn am ail fwndel llai o faint yn yr arolwg proffesiynol a chan ymatebwyr yr arolwg rhieni, gyda phadiau mamolaeth yn

eitem fwyaf poblogaidd (82 y cant) a bag newid ar ffurf sach gefn (18 y cant) yn eitem leiaf poblogaidd i'w chynnwys mewn bwndel llai.

3.85 Codwyd cwestiwn darparu gwahanol fwndeli yn gyffredinol yn sylwadau, cyfweliadau a grwpiau ffocws y rhai a ymatebodd i'r arolwg. Roedd yr adborth a gafwyd yn gymysg, gyda rhai ymatebwyr yn cynnig bwndel babi safonol, p'un a oedd yn ail blentyn, yn blentyn dilynol neu'n enedigaeth luosog, gan y bernid ei fod yn amhriodol i'r cynllun ragdybio beth gallai fod ar riant ei angen. Awgrymodd eraill ddull gweithredu mwy personol, lle gallai rhieni ddewis pa eitemau hoffen nhw eu cael wrth gofrestru, yn enwedig os nad eu plentyn cyntaf oedd dan sylw. Roedd y grŵp olaf hwn o'r farn y byddai'r dull gweithredu yma yn lleihau gwastraff ac yn sicrhau bod yr holl eitemau'n cael eu defnyddio. O ganlyniad, nid oedd consensws clir ynghylch pa ddull gweithredu oedd y mwyaf priodol o ran bwndeli llai ar gyfer amrywiol sefyllfaoedd.

**Ffigur 3.13 Pa rai o'r eitemau canlynol rydych chi'n meddwl ddylai gael eu cynnwys mewn bwndel llai? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol**




Ffynhonnell: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (n=233)

# 4. Gwybodaeth yn y Bwndel

4.1 Roedd bwndel peilot 2020/21 yn cynnwys taflen gyda gwybodaeth am gysgu'n ddiogel a iechyd meddwl amenedigol. Diben y bennod hon yw archwilio'r math o wybodaeth mae rhieni a gweithwyr proffesiynol yn argymell ei chynnwys gyda'r bwndeli babi, ac ym mha fformat y dylid ei darparu.


### Pynciau i'w cynnwys

4.1 Roedd yr arolygon yn gofyn i rieni a gweithwyr proffesiynol a ddylid cynnwys gwybodaeth am rai pynciau yn y bwndel. Cysgu diogel, iechyd meddwl rhieni, bwydo ar y fron a magu plentyn yn ddwyieithog oedd y pynciau a gyflwynwyd.

4.2 Datgelodd canlyniadau arolwg y rhieni gonsensws cyffredinol bod y pynciau hyn yn rhai pwysig i'w cynnwys, fel y nodwyd yn ffigur 4.1. Roedd bron yr holl rieni (99 y cant) yn cytuno y dylid cynnwys gwybodaeth am iechyd meddwl rhieni, gyda'r mwyafrif llethol hefyd yn cytuno y dylid cynnwys cysgu diogel a bwydo ar y fron. Y pwnc a gafodd leiaf o gefnogaeth oedd magu eich plentyn yn ddwyieithog, ond roedd 70 y cant yn dal i gytuno y dylid cynnwys hyn.


4.3 Dangosodd ymatebwyr i'r arolwg gweithwyr proffesiynol hefyd eu cefnogaeth i'r pynciau hyn, ac roedd bron pawb ohonynt yn cytuno y dylid cynnwys gwybodaeth am gysgu diogel, iechyd meddwl rhieni a bwydo ar y fron – gweler ffigur 4.2. Yng nghyswllt cysgu diogel, cyfeiriodd llawer o weithwyr proffesiynol at yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gan *The Lullaby Trust* fel ffynhonnell ddibynadwy maen nhw'n dibynnu arni am arweiniad ar hyn o bryd. Mewn modd tebyg i farn rhieni, y pwnc a gafodd y gefnogaeth leiaf oedd magu eich plentyn yn ddwyieithog, ond roedd 69 y cant yn dal i gytuno y dylid cynnwys hyn.

**Ffigur 4.1 Gellir darparu gwybodaeth bellach ar rai pynciau gyda'r bwndel. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys gwybodaeth am y canlynol? Arolwg Rhieni**




Ffynhonnell: Arolwg Rhieni (n=1,078)

**Ffigur 4.2 Gellir darparu gwybodaeth bellach ar rai pynciau gyda'r bwndel. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys gwybodaeth am y canlynol? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (n=237)[7]

[7] Sylwer bod y ffigurau ar gyfer Cysgu Diogel yn cael eu cynrychioli fel 100% yn y siart oherwydd talgrynnu. Rhoddodd 99.58% ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn, a rhoddodd 0.42% ateb negyddol (1 ymatebydd).

4.4 Ymgynghorwyd hefyd â rhieni a gweithwyr proffesiynol ynghylch unrhyw bynciau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y bwndeli babi. Mynegodd rhai rhieni angen am wybodaeth ac adnoddau nad oeddent yn canolbwyntio ar famau yn unig, gan amlygu pwysigrwydd cynnwys deunydd i dadau. Ymhlith yr awgrymiadau eraill roedd gwybodaeth am grwpiau babanod lleol, cynllunio cyn ysgol ac ysgol, seddau ceir, ffurflenni budd-dal plant a chofrestru genedigaeth, a diogelwch anifeiliaid anwes. Roedd y rhieni hefyd yn argymell ymgorffori gwybodaeth ynghylch meithrin perthynas gyda'r baban a gwneud yn fawr o gyfnodau cynnar bywyd eu plentyn. Mewn ambell grŵp, awgrymodd rhieni gynnwys canllawiau ar sut i ymdopi â baban oedd yn crio.

4.5 Yn ystod cyfweliadau rhanddeiliaid, trafododd un grŵp bwysigrwydd defnyddio iaith a delweddau cynhwysol yn y bwndeli babi, a chynnwys elfennau gweledol sy'n cynrychioli gwahanol fathau o deuluoedd. Mewn cyfweliad ar wahân, argymhellodd un ymwelydd iechyd gynnwys cod QR sy'n cysylltu â detholiad o fideos ar y pynciau gwybodaeth a chyfarwyddiadau ar yr eitemau sy'n cael eu darparu yn y bwndel. Nododd na fydd pobl o reidrwydd bob amser yn darllen deunyddiau ysgrifenedig, ond y gallai fideos cyflym, llawn gwybodaeth fod yn fwy effeithiol. Awgrymodd yr ymwelydd iechyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru greu fideo i gyd-fynd â'r bwndeli babi, gan roi croeso cynnes ac esbonio pob eitem yn fanwl, fyddai'n cynnwys canllawiau defnydd ddiogel.

**Fformat yr wybodaeth**

4.6 Pan ofynnwyd sut hoffen nhw dderbyn gwybodaeth am y pynciau y cyfeiriwyd atynt eisoes, neu bynciau eraill yn ymwneud â beichiogrwydd a/neu fagu plant, byddai'r rhan fwyaf o rieni a ymatebodd i'r arolwg yn ffafrio derbyn yr wybodaeth ar ffurf copi papur yn y bwndel (78 y cant). Cafwyd llai o atebion i'r opsiynau eraill oedd ar gael i ymatebwyr yr arolwg: ffafrio derbyn hyn trwy adnoddau digidol (44 y cant) neu trwy weithiwr iechyd proffesiynol (20 y cant).

4.7 Yn ôl y grwpiau rhanddeiliaid oedd yn dadlau o blaid buddiannau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gall rhai rhieni wynebu anawsterau

gyda'r wybodaeth ysgrifenedig, gan y gallai lefelau llythrennedd fod yn rhwystr i ddarllen y deunydd yn achos rhai rhieni. Esboniodd rhieni o'r gymuned hon naill ai na fyddai'r deunydd yn cael ei ddarllen, neu y byddai plentyn hŷn ar yr aelwyd yn darllen a dehongli'r wybodaeth iddyn nhw. Roedd sefydliadau rhanddeiliaid yn argymell bod angen i unrhyw ddeunydd gwybodaeth fod yn hawdd ei ddarllen a chynnwys lluniau. Cyfeiriwyd at bamffledi iechyd cyhoeddus cysylltiedig â COVID yng Nghymru, a gafodd eu teilwra i'r gymuned hon, fel enghreifftiau o arfer da.

4.8 Yn ystod cyfweliadau rhanddeiliaid a grwpiau ffocws gyda rhieni o deuluoedd sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches, trafodwyd pa iaith y dylid ei defnyddio ar gyfer y deunydd ysgrifenedig. Mewn ymateb, awgrymwyd mai cynnwys gwybodaeth yn y pum iaith a siaradir fwyaf yng Nghymru fyddai'r dull gweithredu mwyaf effeithiol. Ar ben hynny, esboniwyd bod defnyddio apiau cyfieithu ar ffonau clyfar yn gyffredin, a bod rhieni'n gyfarwydd â defnyddio'r apiau neu'r gwefannau i drosi deunyddiau ysgrifenedig neu ddigidol. Y flaenoriaeth iddyn nhw, felly, oedd bod y deunydd mewn print bras, ac yn hawdd ei sganio.

*Ffynonellau eraill cyngor ar feichiogrwydd a magu plant*

4.9 Yn ystod y drafodaeth ynghylch deunyddiau ysgrifenedig, rhoddwyd sylw hefyd i ba wefannau y dylai'r deunyddiau gyfeirio atynt. Y gwefannau a awgrymwyd oedd rhai Llywodraeth Cymru a'r GIG. Ar ben hynny, wrth drafod y pwnc hwn gyda rhieni yn benodol, cyfeiriwyd at safleoedd y GIG fel ffynhonnell, ond cyfeiriodd llawer o rieni at restr o safleoedd eraill, megis Emma's Diary, Bounty, apiau olrhain mislif ac amrywiol sianeli cyfryngau cymdeithasol. Rhestrodd rhieni yn yr holl grwpiau ffocws, ac eithrio'r grŵp rhieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr, rai neu'r cyfan o'r safleoedd hyn fel rhai roedden nhw a'u ffrindiau'n eu defnyddio.

## 5. Cofrestru a Dosbarthu'r Bwndel Babi


5.1 Bu'r ymchwil cwmpasu hefyd yn archwilio'r dulliau oedd yn cael eu ffafrio ar gyfer hysbysu darpar rieni ynghylch y bwndeli, cofrestru ar eu cyfer, a'u derbyn.

**Cyflwyno darpar rieni i'r cynllun bwndeli babi**

*Barn Gweithwyr Proffesiynol*

5.2 Holwyd gweithwyr proffesiynol ynghylch y ffordd orau o gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun, a rhoi gwybod i ddarpar rieni am y bwndeli. Sylwer na ofynnwyd y cwestiwn hwn i rieni. Mae Ffigur 5.1 yn dangos bod mwyafrif (92 y cant) o ymatebwyr yr arolwg gweithwyr proffesiynol o'r farn y dylai rhieni gael gwybod am y bwndel babi mewn apwyntiad gyda bydwraig.

**Ffigur 5.1: Dull o hysbysu rhieni: Ddylai rhieni gael gwybod am y bwndel gan eu bydwraig mewn apwyntiad bydwraig? (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (n=238). Cwestiwn arolwg: 'Yn ystod Peilot y Bwndeli Babi, cafodd rhieni wybod am y bwndel gan eu bydwraig mewn apwyntiad bydwraig. Ydych chi'n meddwl mai dyma'r ffordd orau o roi gwybod i rieni?'

5.3 Nid oedd gwahaniaeth barn ar draws y galwedigaethau, ac o'r 113 o fydwragedd a ymatebodd i'r cwestiwn yma, cytunodd yr un gyfran (92 y cant, neu 104 ohonyn nhw), y dylai rhieni gael eu hysbysu ynghylch y bwndel babi mewn apwyntiad bydwraig. Nid oedd pump o'r bydwragedd yn meddwl mai dyma oedd y ffordd orau, ac atebodd 4, 'ddim yn gwybod'.

5.4 Mewn cyfweliadau, nododd y gweithwyr proffesiynol a'r rhanddeiliaid hefyd mai bydwragedd oedd y cyfrwng allweddol amlwg i roi gwybod i rieni am y

bwndel babi, ac roedden nhw'n meddwl bod 'taflen wybodaeth glir a chryno oedd yn cael ei dosbarthu gan fydwragedd' yn syniad da. Soniodd sawl un hefyd fod bydwragedd yn cael cyfle unigryw i esbonio diben a manteision y bwndel babi ac ateb unrhyw gwestiynau oedd gan rieni. Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr y dylai ymwelwyr iechyd, clinigau cyn geni, a meddygfeydd teulu rannu'r cyfrifoldeb am roi gwybod i rieni a'u cofrestru.

> 'Dwy ddim yn credu mai dim ond fel hyn dylai fe gael ei wneud – rwy'n credu dylai fod mwy o ymwybyddiaeth o'r cynllun i unigolion gael mynediad ato eu hunain, ochr yn ochr â'r dull yma.' Un o ymatebwyr yr arolwg Gweithwyr Proffesiynol - Bydwraig

> 'Dylai gael ei hysbysebu mewn archfarchnadoedd, ar y radio/cyfryngau, ar daflenni gwybodaeth am feichiogrwydd, ar sgriniau hysbysebu yn ardaloedd aros clinigau cyn geni/ysbytai/meddygfeydd teulu, ac yna gallai fod o help i annog menywod i siarad am y peth yn eu hapwyntiad. Mae gan y fydwraig lawer o bynciau i'w trafod, felly fe ellid sôn amdano, ond nid dyma'r unig adeg y dylid ei drafod.' Un o ymatebwyr yr arolwg gweithwyr proffesiynol - Bydwraig

> 'Fyddai modd gwneud hyn trwy'r system famolaeth Ddigidol newydd er mwyn medru adnabod y rhieni hynny fyddai'n gallu hawlio hyn? Mae disgwyl mwy a mwy gan fydwragedd sy'n methu darparu elfennau sylfaenol eu rôl oherwydd yr argyfwng staffio yn gofyn gormod! Darparwch fwy o fydwragedd, os ydych chi'n disgwyl i fydwragedd wneud mwy.' Un o ymatebwyr yr arolwg gweithwyr proffesiynol – Bydwraig

5.5 Yn ogystal â dibynnu ar fydwragedd i roi gwybod i rieni am y cynllun bwndeli babi, awgrymwyd dulliau eraill. Soniwyd am ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (yn bennaf TikTok ac Instagram ac, i raddau llai, Facebook), apiau, a phosteri mewn meddygfeydd teulu a lleoliadau eraill fel dulliau posibl o gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun.

5.6 Ar ben hynny, awgrymodd rhai rhieni ddefnyddio apiau tracio mislif ac apiau beichiogrwydd fel Emma's Diary yn fodd i ddysgu am y bwndeli babi. Roedd yr apiau yma'n cael eu defnyddio'n eang gan ddarpar rieni a gafodd gyfweliad yn y grwpiau ffocws, ac o ystyried eu poblogrwydd, awgrymodd rhai rhieni a rhanddeiliaid y gallai fod o werth ystyried a hysbysebu yn yr

apiau ac ar y safleoedd hyn er mwyn cyrraedd rhieni, gan fod hynny'n cyd-fynd â'r hyn mae darpar rieni eisoes yn ei wneud. Hefyd soniwyd am roi posteri mewn ystafelloedd aros a lleoliadau eraill mae darpar rieni yn debygol o ymweld â nhw gan weithwyr proffesiynol yn yr arolwg a chan rieni ar draws yr holl grwpiau ffocws.

5.7 Mae'r sylwadau gan rieni a gweithwyr proffesiynol yn amlygu pwysigrwydd defnyddio ystod o sianeli cyfathrebu er mwyn sicrhau bod y neges am y cynllun bwndeli babi yn cael ei gweld gan gynifer o ddarpar rieni â phosibl.

*Barn gweithwyr proffesiynol ynghylch pryd dylid rhoi gwybod i rieni gyntaf*

5.8 Holwyd yr ymatebwyr i'r arolwg gweithwyr proffesiynol hefyd ym mha wythnos o'r beichiogrwydd roedden nhw'n meddwl y byddai'n briodol hysbysu'r rhieni gyntaf am y bwndel babi a'i gynnwys. Sylwer na ofynnwyd y cwestiwn hwn i rieni. Yr 'wythnosau' canlynol o'r beichiogrwydd oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd:

- Wythnos 12: 10 y cant o'r ymatebwyr
- Wythnos 16: 15 y cant o'r ymatebwyr
- Wythnos 20: 23 y cant o'r ymatebwyr
- Wythnos 28: 11 y cant o'r ymatebwyr


5.9 Fodd bynnag, roedd bydwragedd yn fwy tebygol o ffafrio hysbysu'r darpar rieni yn wythnos 16, gyda chwarter ohonyn nhw'n dethol yr wythnos honno.

**Dulliau cofrestru**

*Barn gweithwyr proffesiynol*

5.10 Gofynnodd yr arolwg i weithwyr proffesiynol pa ddull roedden nhw'n meddwl fyddai orau i rieni gofrestru ar gyfer y bwndel babi – ffurflen bapur oedd yn cael ei llenwi gan fydwraig neu ffurflen gofrestru ar-lein, neu gyfle i ddewis rhwng y ddwy. Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr (59 y cant) mai'r opsiwn gorau fyddai ffurflen bapur neu ar-lein (gweler ffigur 5.2). Nid oedd gwahaniaeth barn rhwng y gwahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol (bydwragedd, ymwelwyr iechyd ac eraill).

**Ffigur 5.2 Fel gweithiwr proffesiynol, pa ddull cofrestru rydych chi'n meddwl fyddai orau? Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (%)**




Ffynhonnell: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol (n=236)

5.11 Gofynnwyd i'r gweithwyr proffesiynol hefyd a allai unrhyw broblemau godi petai dull cofrestru ar-lein yn cael ei ddefnyddio, a mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch materion technegol a hygyrchedd. Dywedodd un ymatebydd 'na fydd gan bob rhiant fynediad at gyfrifiadur neu ffôn clyfar i lenwi'r ffurflen ar-lein'; tra awgrymodd ymatebydd arall 'y gallai fod angen cymorth technegol ar rieni sydd ddim yn gyfarwydd â defnyddio ffurflenni ar-lein'. Ymhlith y materion eraill a godwyd roedd pryderon ynghylch diogelwch data a phreifatrwydd, yn ogystal â sicrhau bod y broses gofrestru ar-lein yn hwylus i ddefnyddwyr ac yn hawdd gweithio trwyddi. At ei gilydd, er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ffafrio defnyddio ffurflen gofrestru ar-lein, roedd angen i hynny fod yn syml iawn, ac awgrymodd rhai y gallai cynnig y ddau opsiwn fod yn fuddiol, er mwyn sicrhau bod pob rhiant yn gallu cofrestru ar gyfer y bwndel babi mewn modd sy'n addas i'w hanghenion a'u dewisiadau.

*Ystyriaethau ar gyfer sefyllfaoedd teulu a grwpiau amrywiol*


5.12 Holwyd rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda gwahanol grwpiau o rieni a chymunedau hefyd ynghylch y dulliau cofrestru, yn ogystal â'r rhieni yn y grwpiau ffocws. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn hyderus y byddai dull cofrestru ar-lein yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, roedd rhai eithriadau, gan gynnwys rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda rhieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr

a'r rhieni o'r cymunedau hynny oedd yn cyfranogi yn y grŵp ffocws. Yn yr achosion hyn, codwyd pryderon ynghylch lefelau llythrennedd isel a'r ffaith na fyddai deunydd ysgrifenedig o reidrwydd yn cael ei ddarllen. Yn benodol, roedd y rhieni hyn am i weithiwr cefnogi roedden nhw'n ymddiried ynddynt, neu eu bydwraig, gofrestru ar eu rhan. At ei gilydd, mae'r adborth yn awgrymu, er y gallai dull cofrestru ar-lein weithio i'r rhan fwyaf o rieni, y gallai fod angen cefnogaeth ychwanegol ar rai grwpiau i sicrhau eu bod yn gallu cofrestru'n llwyddiannus ar gyfer y bwndel babi. Yn fwy cyffredinol, nid oedd gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid yn rhagweld unrhyw broblemau wrth gyrchu gwybodaeth a chofrestru ar-lein ymhlith y rhai nad oeddent yn siarad llawer o Gymraeg na Saesneg. Nododd llawer fod y grwpiau hyn o unigolion yn gyfarwydd â defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar-lein ac ar ffurf apiau (gweler hefyd baragraff 4.8 ynghylch y deunydd ysgrifenedig sydd i'w gynnwys yn y bwndeli).

*Barn Rhieni*

5.13 Gwelwyd bod y nifer uchaf o ymatebwyr yr arolwg rhieni yn ffafrio llenwi ffurflen ar-lein eu hunain, yn eu hamser eu hunain, er mwyn cofrestru ar gyfer y bwndel, gyda 57 y cant yn dewis y dull hwn. Dilynwyd hynny gan 30 y cant oedd yn dweud y byddai'n well ganddyn nhw lenwi ffurflen ar-lein gyda bydwraig yn ystod apwyntiad. Dim ond nifer bach fyddai'n ffafrio cofrestru ar bapur (5 y cant yn dewis llenwi a phostio gan y fydwraig ac 1 y cant yn dewis llenwi a phostio eu hunain) – gweler ffigur 5.3.

**Ffigur 5.3 Wrth gofrestru ar gyfer y bwndel, mae modd gwneud hynny ar-lein neu drwy ffurflen bapur – pa ddull cofrestru byddech chi'n ei ffafrio? Arolwg Rhieni**




Ffynhonnell: Arolwg Rhieni (n=1, 075)

*Barn gweithwyr proffesiynol ynghylch pryd dylid cofrestru ar gyfer y bwndel*

5.14 Holwyd gweithwyr proffesiynol ar ba adeg yn y beichiogrwydd roedden nhw'n teimlo ei fod yn briodol i rieni *gofrestru* ar gyfer y bwndel. Sylwer na ofynnwyd y cwestiwn hwn i'r rhieni. Y ddwy wythnos mwyaf poblogaidd a ddewiswyd yn ystod y beichiogrwydd oedd wythnos 20 (a ddewiswyd gan 24 y cant) ac wythnos 28 (a ddewiswyd gan 16 y cant). Ymhlith y bydwragedd yn unig, yr wythnos fwyaf poblogaidd ar gyfer cofrestru oedd wythnos 28 (a ddewiswyd gan 23 y cant). Fodd bynnag, dewiswyd yr ystod lawn o opsiynau, o wythnos 12 i wythnos 36, fel wythnosau addas gan ymatebwyr i'r arolwg, felly nid oedd consensws clir ynghylch yr wythnos orau i gofrestru.

5.15 Darparwyd sylwadau hefyd yn yr arolwg ac mewn cyfweliadau i gefnogi'r dewis o wythnosau. Teimlai llawer o weithwyr proffesiynol fod hyblygrwydd yn bwysig, ac y dylai rhieni fedru cofrestru ar unrhyw adeg yn ystod eu beichiogrwydd, er mwyn bod yn addas i unigolion sy'n adleoli yn ystod beichiogrwydd, neu sy'n sylweddoli eu bod yn feichiog yn ddiweddarach. Ymhellach, awgrymodd gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid, petai rhieni yn colli cyfle i gofrestru ar gyfer y bwndeli, y dylid caniatáu iddyn nhw gofrestru ar eu cyfer a'u derbyn ar ôl i'r babi gael ei eni.

> 'Byddai sicrhau stoc brys o fwndeli ym mhob uned famolaeth hefyd o fudd i famau y bu eu beichiogrwydd yn guddiedig' (Arolwg/Bydwraig)

5.16 Teimlai llawer o weithwyr proffesiynol fod hyblygrwydd yn bwysig, ac y dylai rhieni fedru cofrestru ar unrhyw adeg yn ystod eu beichiogrwydd. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y byddai cynnig cofrestru cynnar, o bosib hyd yn oed o'r apwyntiad amenedigol cyntaf, yn ddull da o sicrhau bod cynifer o rieni â phosibl yn ymwybodol o'r bwndel babi ac yn gallu cael mynediad ato.

**Dosbarthu'r bwndeli**

*Barn rhieni*

5.17 Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o rieni'n ffafrio derbyn y bwndel rhwng wythnos 30 ac wythnos 36, gyda 67 y cant o'r ymatebwyr yn dewis un o'r wythnosau hyn.

5.18 Yr wythnos oedd yn cael ei ffafrio fwyaf ar gyfer derbyn y bwndel oedd wythnos 30 (26 y cant).

*Barn gweithwyr proffesiynol*

5.19 Ar draws yr holl weithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg, yr wythnos fwyaf poblogaidd ar gyfer dosbarthu'r bwndel babi i rieni eto oedd rhwng wythnos 30 ac wythnos 36 o'r beichiogrwydd, gyda 74 y cant o'r ymatebwyr yn dewis un o'r wythnosau hyn. Gweithwyr proffesiynol yn gyffredinol oedd y nifer uchaf i ffafrio bod y rhieni'n derbyn y bwndel yn wythnos 36 (23 y cant).

5.20 Roedd rhai gwahaniaethau barn rhwng bydwragedd, ymwelwyr iechyd, a gweithwyr proffesiynol eraill ynghylch yr wythnos yn ystod y beichiogrwydd pryd y dylid dosbarthu'r bwndel babi. Roedd bydwragedd yn fwyaf tebygol o awgrymu dosbarthu'r bwndel yn 36 wythnos (32 y cant), gyda 34 wythnos yn dilyn (19 y cant). Ymwelwyr iechyd oedd y rhai mwyaf tebygol o awgrymu cyflwyno'r bwndel yn 30 wythnos (27 y cant), gyda 36 wythnos a 34 wythnos yn dilyn (16 y cant fel ei gilydd).

5.21 At ei gilydd, ymddengys bod y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y byddai dosbarthu'r bwndel babi i rieni rhwng wythnos 30 ac wythnos 36 o'r beichiogrwydd yn briodol, hynny yw ar ôl yr ail dymor, pan fo rhieni'n dechrau paratoi i groesawu eu baban.

**Colli baban yn ystod beichiogrwydd neu golli baban newyddanedig**

5.22 Fel rhan o arolwg y gweithwyr proffesiynol, gofynnwyd cwestiwn ynghylch yr opsiynau gorau ar gyfer rhoi gwybod i gyflenwr y bwndeli babi yn yr achosion hynny lle gallai rhiant fod wedi cofrestru ar gyfer bwndel, ond yn colli'r baban yn ystod y beichiogrwydd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo mai bydwragedd ddylai hysbysu'r cyflenwr, naill ai trwy gyfeiriad e-bost penodol (63 y cant), trwy ffurflen ar-lein (59 y cant), neu trwy rif ffôn penodol (50 y cant).

5.23 Trafodwyd hyn mewn cyfweliadau gyda nifer bach o fydwragedd a gweithwyr proffesiynol eraill. Nid oedd consensws ynghylch y dull gorau o hysbysu cyflenwr y bwndel babi pan fyddai baban yn cael ei golli yn ystod beichiogrwydd, na phwy ddylai gysylltu â'r cyflenwr, cyhyd â bod y broses yn syml iawn i'r rhieni. Esboniodd un fydwraig fod system o fewn y bwrdd iechyd sydd â rhestr o wasanaethau i gysylltu â nhw os collir babi yn ystod beichiogrwydd, fel bod modd atal llythyron apwyntiadau a deunyddiau eraill perthnasol, a gellid ychwanegu contractwr dosbarthu bwndeli babi at y rhestr honno. Er na fu'r ymchwil cwmpasu yn archwilio'r agweddau ymarferol ar yr opsiwn yma, mae'n haeddu ymchwilio pellach iddo.

5.24 Holwyd ymatebwyr yr arolwg gweithwyr proffesiynol hefyd ynghylch yr opsiynau a ddylai fod ar gael i rieni sydd am ddychwelyd y bwndel os caiff y baban ei eni'n farw, neu os collir baban newyddanedig ar ôl iddynt dderbyn y bwndel. Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr mai bydwraig neu ymwelydd iechyd ddylai drefnu hyn, naill ai trwy gyfeiriad e-bost penodol (56 y cant), trwy ffurflen ar-lein (32 y cant), neu trwy rif ffôn penodol (47 y cant).

Roedd y nifer bach o weithwyr proffesiynol a gafodd gyfweliad yn cytuno bod hwn yn fater sensitif, a bod angen ei drin yn ofalus. Awgrymodd un fydwraig gynnwys gweithwyr profedigaeth yn ystod beichiogrwydd, y byddai angen iddyn nhw gael gwybod am y bwndeli. Rhybuddiodd gweithiwr proffesiynol arall yn erbyn rhagdybio neu ddyfalu beth byddai rhieni am ei wneud â'r bwndel mewn sefyllfa o'r fath, gan y byddai rhai o bosib am ei gadw er cof. Mae angen trafod a chynllunio pellach i sicrhau bod opsiynau priodol yn cael eu harchwilio, a bod camau ar gyfer canslo dosbarthu bwndeli a dychwelyd bwndeli yn rhan o'r cynllun.

# 6. Casgliadau

6.1 Mae'r ymchwil cwmpasu a gynhaliwyd i lywio'r gwaith o gyflenwi bwndeli babi ar draws Cymru wedi darparu cipolwg ar farn a safbwyntiau rhieni, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid ynghylch cynnwys posibl y bwndeli a'r prosesau cysylltiedig â'r cynllun. Mae'r canfyddiadau'n glir bod bwndeli babi yn cael eu hystyried yn syniad da, a'u bod yn cael eu cefnogi'n gyffredinol gan y gynulleidfa darged. Fodd bynnag, nodwyd rhai manylion ynghylch eitemau unigol yn y bwndeli a sut dylid eu cofrestru a'u cyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn addas ac yn cyrraedd y rhan fwyaf o rieni.

6.2 Cafodd cynnwys arfaethedig y bwndeli babi dderbyniad da yn gyffredinol gan rieni a gweithwyr proffesiynol, gyda llawer yn barnu eu bod yn addas ac yn ddefnyddiol. Ymhlith yr eitemau roedd bron pawb yn arbennig o hoff ohonynt roedd dillad baban fel siwtiau cysgu a siwtiau undarn, thermomedrau, sachau cysgu a phadiau mamolaeth a bronnau. O ganlyniad, mae sawl eitem lle mae achos cryf dros eu cynnwys yn y bwndel babi. Cafodd yr eitemau hyn dderbyniad da gan rieni a gweithwyr proffesiynol ac fe'u gwelir fel pethau hanfodol.

6.3 Roedd barn ranedig ynghylch rhai o'r eitemau mwy swmpus a drud oedd yn cael eu cynnwys yn y bwndel. Mynegwyd pryderon ynghylch ymarferoldeb yr eitemau hyn ac a fyddent yn cael eu defnyddio. Roedd rhai cyfranogwyr yn barnu bod y siaced gnu, yn arbennig, yn eitem dymhorol, ac awgrymwyd amrywio'r bwndel er mwyn peidio â chynnwys dillad cynhesach ar gyfer babanod a aned yn yr haf. Yn achos y bag newid ar ffurf sach gefn, er nad oedd gwrthwynebiadau o bwys i gynnwys y bag, mynegodd ambell riant, gweithiwr proffesiynol a rhanddeiliad bryder na fyddai pob rhiant yn ei ddefnyddio, ac y gallai fod yn wastraff. At ei gilydd, nid oedd cynnwys y siaced gnu na'r sach gefn yn y bwndel yn broblem fawr, ond nodwyd y posibilrwydd o greu gwastraff.

6.4 Mynegodd rhai rhieni, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid bryderon ynghylch cynnwys condomau. Er bod rhai cyfranogwyr yn teimlo bod hwn yn ychwanegiad defnyddiol, teimlai eraill ei fod yn ddiangen, ac y gallai beri tramgwydd.

6.5 Roedd barn gymysg ynghylch cynnwys eli tethi, slingiau babi a chewynnau amldro. Os caiff yr eitemau hyn eu cynnwys, mae gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid yn argymell bod cyfarwyddiadau ac arweiniad clir i gyd-fynd â nhw.

6.6 Yn arbennig, yn achos cewynnau amldro, er bod rhai ymatebwyr wedi mynegi cefnogaeth gref i gynnwys yr eitemau hyn yn y bwndel babi, roedd gan eraill bryderon neu faterion oedd yn eu poeni. Er enghraifft, roedd rhai cyfranogwyr yn ansicr ynghylch ymarferoldeb cewynnau amldro i deuluoedd mwy o faint, neu'r rhai heb gyfleusterau neu le i olchi a sychu. Roedd cynnig system o dalebau ar gyfer cewynnau amldro yn cael ei ystyried yn ateb ymarferol i atal yr eitemau hyn rhag cael eu gwastraffu, a phwysleisiwyd bod darparu cyfarwyddiadau clir a dolenni i ffynonellau arweiniad ychwanegol yn hanfodol bwysig.

6.7 Bu'r cyfranogwyr hefyd yn awgrymu rhai eitemau nad oeddent yn cael eu cynnwys yn y bwndel babi ar hyn o bryd, ond y gellid eu hystyried i'w cynnwys mewn fersiynau yn y dyfodol. Ymhlith yr eitemau hyn mae: llyfr, talebau ar gyfer cynnyrch neu wasanaethau babi; tegan synhwyraidd; weips (untro neu amldro), a chardiau cerrig milltir. Cynigiodd rhai rhieni yn yr arolwg a'r grwpiau gewynnau untro a photeli, ond roedd llawer ohonynt hefyd yn cydnabod y gallai fod problemau ynghlwm wrth ddarparu'r eitemau hynny.

6.8 Yn ogystal â'r eitemau eu hunain, roedd ymatebion yr arolygon a'r cyfweliadau yn cytuno y dylid darparu gwybodaeth bwysig yn y bwndeli babi. Roedd bron yr holl ymatebwyr o'r arolwg rhieni a'r arolwg gweithwyr proffesiynol yn meddwl y dylid cynnwys gwybodaeth ar bynciau cysgu diogel, iechyd meddwl rhieni a bwydo ar y fron. Ar ben hynny awgrymodd yr ymatebwyr gynnwys gwybodaeth am adnoddau a gwasanaethau cefnogi lleol. Roedd yr ymatebwyr yn argymell y dylid cyflwyno'r wybodaeth hon mewn fformat hygyrch a hawdd ei ddarllen.

6.9 Nodwyd bydwragedd fel cyfrwng oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer cofrestru a dosbarthu bwndeli babi, ac roedd mwyafrif o'r bydwragedd yn yr arolwg yn cefnogi'r rôl hon. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon ynghylch llwyth gwaith bydwragedd, a hefyd sut i gyrraedd a chefnogi pob teulu. Awgrymodd rhai

cyfranogwyr ddulliau gwybodaeth a chofrestru amgen, megis hysbysebu trwy apiau a gwefannau magu plant a chodau QR ar bosteri.

6.10 I gloi, mae canfyddiadau'r ymchwil cwmpasu yma yn dangos bod lefel uchel o gefnogaeth i gyflwyno cynllun bwndeli babi cyffredinol sy'n hygyrch i bob darpar riant. Ymhellach, credai bron holl gyfranogwyr yr ymchwil mai bydwragedd fyddai'r dull mwyaf effeithiol o hysbysu darpar rieni am y cynllun a'u cofrestru ar ei gyfer.

**Atodiadau**

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys:

- Copi o'r Arolwg Rhieni
- Copi o Arolwg y Gweithlu
- Canllawiau i'r Pynciau
- Demograffeg Arolwg y Rhieni

## Atodiad A: Arolwg Rhieni

Mae gennym ddiddordeb clywed eich barn am raglen ‘Bwndel Babi’ sef rhodd 'croeso i’r byd'.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynllun Bwndel Babi ar gael i bob babi newydd.  Bydd y cynllun yn rhoi 'bwndel babi' am ddim i rieni beichiog - anrheg sy'n cynnwys eitemau i fabanod a rhieni, wedi'u dosbarthu ychydig wythnosau cyn dyddiad geni’r babi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gwmni ymchwil Arad i gasglu barn rhieni ar y bwndel babi. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn chwarae rôl allweddol wrth helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau yn y dyfodol am bwndeli babi yng Nghymru.

Dylai'r arolwg gymryd tua 5 - 10 munud. Ni fydd eich ymateb yn cael ei rannu gydag unrhyw drydydd partïon ac ni fydd unrhyw wybodaeth i’ch adnabod mewn unrhyw adroddiadau cyhoeddedig. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd. Os hoffech ragor o wybodaeth neu os yw'n well gennych roi eich atebion dros y ffôn, cysylltwch â [……] o'r tîm ymchwil [e-bost].

**Amdanoch chi**

1. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi? *

☐ Dwi'n disgwyl babi/fy mhartner yn disgwyl - heb blant eraill

☐ Dwi'n disgwyl babi/fy mhartner yn disgwyl - ac mae gennym blentyn/plant arall

☐ Dydw i /fy mhartner ddim yn disgwyl babi - ond mae gen i blant o dan 5 oed

☐ Dim o'r uchod

**Diolch**

Nod yr arolwg hwn yw casglu barn rhieni beichiog neu rieni plant dan 5 oed. Gan i chi nodi nad yw'r rhain yn eich disgrifio chi, bydd yr arolwg yn gorffen yma. Diolch am eich diddordeb mewn cymryd rhan yn yr arolwg.

2. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio oedran eich plentyn/plant eraill?

☐ Mae gen i blentyn/plant o dan 12 mis oed

☐ Mae gen i blentyn/plant rhwng 1 a 5 oed

☐ Mae gen i blentyn/plant dros 5 oed

**Cynnwys**

3. Gellir cynnwys yr eitemau canlynol yn y bwndel. Pa mor ddefnyddiol fyddai'r eitemau canlynol pe baen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel? Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau hyn, cliciwch yma.

| | Defnyddiol iawn | Eithaf defnyddiol | Ddim wir yn ddefnyddiol | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Siwtiau cysgu a siwtiau un-darn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Siaced cnuf i blant 3-6 mis | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mat chwarae | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mat newid teithio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tywel bath â chwfl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sach gysgu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Thermomedr babi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Thermomedr bath/ystafell mewn un | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sling babi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pecyn cewynnau y gellir ei ailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bag newid cario ar cefn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Condomau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eli bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Oes unrhyw eitemau yn y rhestr uchod rydych chi'n meddwl na fyddai'n addas i'w cynnwys yn y bwndel babi? Os felly, nodwch yr eitemau hyn yn y blwch isod a pham eich bod yn meddwl na fydden nhw'n addas i'w cynnwys.

4. Oes unrhyw eitemau eraill yr hoffech chi eu gweld yn y bwndel? Nodwch yr eitemau hyn yn y blwch a pham y dylid eu cynnwys.

**Cynnwys**

5. Gellir darparu talebau (vouchers) yn y bwndel babi yn lle rhai eitemau. Gellid defnyddio'r rhain ar gyfer prynu eitemau iechyd a phersonol a / neu eitemau tymhorol.

Sut byddai'n well gennych dderbyn yr eitemau canlynol, os o gwbl?

| | Fel eitem yn y bwndel | Fel taleb/voucher | Dim ots gen it | Ni fyddwn am dderbyn hyn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Padiau mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Condomau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eli bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eitemau tymhorol e.e. siwt gysgu cynnes neu siaced gaeaf | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sling babi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pecyn cewynnau y gellir ei ailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Oes unrhyw eitemau eraill rydych chi'n meddwl y gellid eu darparu'n well fel taleb? Rhowch fanylion isod.

**Cynnwys**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried darparu dau fath o fwndel babi: un ar gyfer rhieni am y tro cyntaf ac ail fwndel llai i rieni sydd â phlant eisoes. Mae hyn er mwyn lleihau dyblygu neu wastraff i'r rhai a allai fod â rhai o'r eitemau hyn eisoes.

6. Pa un o'r eitemau canlynol ydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys mewn bwndel llai? Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau hyn, cliciwch yma.

- ☐ Siwtiau cysgu a siwtiau un-darn
- ☐ Siaced cnuf i blant 3-6 mis
- ☐ Mat chwarae

- [ ] Mat newid teithio
- [ ] Tywel bath â chwfl
- [ ] Sach gysgu
- [ ] Thermomedr babi
- [ ] Thermomedr bath/ystafell mewn un
- [ ] Sling babi
- [ ] Pecyn cewynnau y gellir ei ailddefnyddio
- [ ] Bag newid cario ar cefn
- [ ] Padiau mamolaeth
- [ ] Padiau bwydo ar y fron
- [ ] Condomau
- [ ] Eli bwydo ar y fron
- [ ] Arall (nodwch)

**Cynnwys**

7. Pa mor debygol yw hi y byddai'r eitemau canlynol yn cael eu defnyddio pe baen nhw'n cael eu cynnwys?

| | Tebygol iawn | Eithaf tebygol | Ddim yn debygol nac yn annhebygol | Eithaf annhebygol | Annhebygol iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pecyn cewynnau y gellir ei ailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau bwydo ar y fron y gellir ei ailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau mamolaeth y gellir ei ailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

8. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr eitemau y gellir eu hailddefnyddio a restrir uchod, neu unrhyw syniadau eraill ar gyfer eitemau ailddefnyddiadwy / eco-gyfeillgar y gellid eu cynnwys.

**Gwybodaeth**

9. Gall y bwndel gynnwys gwybodaeth bellach am rai pynciau.

Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys gwybodaeth am y canlynol?

| | Dylid cynnwys | Na, dim cynnwys | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Cysgu diogel | ☐ | ☐ | ☐ |
| Iechyd meddwl rhieni | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ |
| Magu plant yn ddwyieithog | ☐ | ☐ | ☐ |

Pa bynciau neu gyngor arall fyddai'n bwysig eu cynnwys gyda'r bwndel?

10. Sut byddai'n well gennych dderbyn gwybodaeth am y pynciau hyn neu bynciau arall am feichiogrwydd neu fagu plant?

- ☐ Fel copi papur sydd wedi'i gynnwys yn y bwndel e.e. taflenni, cardiau
- ☐ Adnoddau digidol, e.e. dolenni i wefannau, codau QR, apps
- ☐ Fformat arall
- ☐ Gan weithiwr iechyd
- ☐ Dim ots
- ☐ Well gen i beidio derbyn hyn
- ☐ Arall (nodwch)

**Cofrestru i dderbyn bwndel**

11. Wrth gofrestru ar gyfer y bwndel, gellir gwneud hynny ar-lein neu drwy ffurflen bapur - pa ddull cofrestru fyddai'n well gennych?

- ☐ Ffurflen gofrestru papur wedi'i llenwi a'i phostio gan y fydwraig
- ☐ Ffurflen gofrestru papur wedi ei llenwi a'i phostio gen i
- ☐ Llenwi ffurflen ar-lein gyda bydwraig yn ystod apwyntiad
- ☐ Ffurflen ar-lein i'w llenwi gennyf yn fy amser fy hun
- ☐ Dim ots gen i

☐ Arall (nodwch)

**Derbyn y bwndel**

12. Ar ba wythnos o feichiogrwydd ydych chi'n dylai'r bwndel babi gael ei ddanfon i rieni?

**Amdanoch chi**

Mae gweddill yr arolwg yn gofyn rhai cwestiynau amdanoch chi. Drwy ateb y cwestiynau canlynol, rydych chi'n helpu i ddylunio'r bwndeli gorau posibl sy'n cynrychioli anghenion holl rieni Cymru.

13. Oes unrhyw un o'r canlynol yn eich disgrifio chi?

☐ Rwy'n rhiant sydd wedi mabwysiadu
☐ Mae gen efeilliaid, tripledi neu fwy, neu dwi'n disgwyl genedigaeth luosog.
☐ Rwy'n rhiant i blentyn/plant a anwyd drwy 'surrogacy', neu yr wyf yn disgwyl i blentyn gael ei eni drwy 'surrogacy'.
☐ Rwy'n ofalwr plant sy'n derbyn gofal
☐ Dim o'r uchod

14. Beth yw eich oed?

☐ Dan 18
☐ 18-24
☐ 25-34
☐ 35-44
☐ 45 neu'n hyn
☐ Well gen i beidio dweud

15. Beth yw eich rhyw?

☐ Benyw
☐ Gwryw
☐ Well gen i beidio dweud

16. Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu â yr un peth â'ch rhyw gofrestrwyd ar enedigaeth?

☐ Ydy

- [ ] Nac ydy
- [ ] Well gen i beidio dweud

Os 'nac ydy', nodwch eich hunaniaeth rhywedd?

17. Beth yw prif iaith/ieithoedd eich cartref?

- [ ] Cymraeg
- [ ] Saesneg
- [ ] Iaith / Ieithoedd eraill
- [ ] Well gen i beidio dweud

18. Oes gennych chi unrhyw gyflyrau neu afiechydon iechyd corfforol neu feddyliol y mae disgwyl iddyn nhw bara 12 mis neu fwy?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes
- [ ] Well gen i beidio â dweud

19. Beth yw eich statws cyflogaeth presennol? (gan gynnwys absenoldeb mamolaeth/tadolaeth)

- [ ] Cyflogedig - llawn amser
- [ ] Cyflogedig - rhan-amser
- [ ] Cyflogedig - contract dim oriau
- [ ] Hunangyflogedig / Llawrydd
- [ ] Mewn addysg neu hyfforddiant
- [ ] Ddim mewn gwaith na hyfforddiant - yn chwilio am waith
- [ ] Ddim mewn gwaith - ddim yn chwilio am waith
- [ ] Well gen i beidio â dweud
- [ ] Arall (nodwch)

20. Oes gennych bartner neu briod yn byw gyda chi?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes

- [ ] Well gen i beidio â dweud

21. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol orau?

- [ ] Heterorywiol / Syth
- [ ] Hoyw neu lesbiaidd
- [ ] Deurywiol
- [ ] Cyfeiriadedd rhywiol arall (nodwch)

**Amdanoch chi**

22. Beth yw eich grŵp ethnig?

Gwyn

- [ ] Cymreig, Seisnig , Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig
- [ ] Gwyddelig
- [ ] Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- [ ] Roma
- [ ] Unrhyw gefndir gwyn arall

Grwpiau ethnig cymysg neu luosog

- [ ] Gwyn a Du Caribïaidd
- [ ] Gwyn a Du Affricanaidd
- [ ] Gwyn ac Asiaidd
- [ ] Unrhyw gefndir cymysg neu luosog arall

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig

- [ ] Indiaidd
- [ ] Pacistanaidd
- [ ] Bangladeshaidd
- [ ] Tseiniaidd
- [ ] Unrhyw gefndir Asiaidd arall

Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd

- [ ] Caribïaidd
- [ ] Affricanaidd
- [ ] Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall

Grŵp ethnig arall

- [ ] Arabaidd
- [ ] Unrhyw Grŵp Ethnig arall
- [ ] Well gen i beidio â dweud

23. Beth yw eich crefydd?

- [ ] Dim crefydd
- [ ] Cristnogol (pob enwad)
- [ ] Bwdhaidd
- [ ] Hindŵaidd
- [ ] Iddewig
- [ ] Mwslim
- [ ] Sikh
- [ ] Unrhyw grefydd arall (nodwch):

Rydych wedi cyrraedd diwedd yr arolwg.
Cliciwch ar 'Gorffen' isod i rannu eich atebion.

Ar y dudalen nesaf gofynnir i chi a hoffech drafod y cynllun Bwndeli Babi yn fanylach.
Gadewch eich manylion os oes gennych ddiddordeb.

# Atodiad B: Arolwg Gweithwyr Proffesiynol

## Cyflwyniad

Mae gennym ddiddordeb clywed eich barn am raglen ‘Bwndel Babi’ sef rhodd 'croeso i’r byd'.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynllun Bwndel Babi ar gael i bob babi newydd. Bydd y cynllun yn rhoi 'bwndel babi' am ddim i rieni beichiog - anrheg sy'n cynnwys eitemau i fabanod a rhieni, wedi'u dosbarthu ychydig wythnosau cyn dyddiad geni’r babi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gwmni ymchwil Arad gasglu barn gweithwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill am y bwndel babi. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn chwarae rôl allweddol wrth helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau yn y dyfodol am bwndeli babi yng Nghymru.

Dylai'r arolwg gymryd tua 5 - 10 munud. Ni fydd eich ymateb yn cael ei rannu gydag unrhyw drydydd partïon ac ni fydd unrhyw wybodaeth i’ch adnabod mewn unrhyw adroddiadau cyhoeddedig. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd. Os hoffech ragor o wybodaeth neu os yw'n well gennych roi eich atebion dros y ffôn, cysylltwch â [.......] o'r tîm ymchwil [e-bost].

## Amdanoch chi

1. Beth yw eich rôl? *

- ☐ Bydwraig
- ☐ Ymwelydd iechyd
- ☐ Arall (nodwch fanylion isod)

2. Pwy sy'n eich cyflogi?

- ☐ Awdurdod lleol - Dechrau'n Deg
- ☐ Awdurdod lleol - Arall
- ☐ Bwrdd iechyd
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

## Amdanoch chi

3. Ym mha ardal awdurdod lleol rydych chi'n gweithio?

4. Pa fwrdd iechyd sy'n eich cyflogi?

## Cynnwys

5. Mae'n bosib y gellir cynnwys yr eitemau canlynol yn y bwndel. Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n meddwl y byddai pob un o'r eitemau hyn i rieni pe baen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel? Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau hyn, cliciwch yma.

| | Defnyddiol iawn | Eithaf defnyddiol | Ddim mor ddefnyddiol | Dim yn ddefnyddiol gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Siwtiau cysgu a siwtiau un-darn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Siaced cnuf i blant 3-6 mis | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mat chwarae | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mat newid teithio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tywel bath â chwfl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sach gysgu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Thermomedr babi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Thermomedr bath/ystafell mewn un | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sling babi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pecyn cewynnau y gellir ei ailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bag newid cario ar cefn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Condomau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eli bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

6. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ddefnyddioldeb yr eitemau uchod. Er enghraifft, os ddwedoch nad oedd eitemau'n ddefnyddiol, oes gennych awgrymiadau o ran beth i'w newid?

7. Oes unrhyw eitemau yn y rhestr uchod rydych chi'n meddwl na fyddai'n addas i'w cynnwys yn y bwndel babi?
Os felly, dywedwch wrthym pa eitemau a pham.

8. A allai unrhyw un o'r eitemau a restrir uchod achosi unrhyw broblemau i rai grwpiau o rieni, er enghraifft rhieni o gefndiroedd diwylliannol gwahanol, rhieni anabl ayyb?
Os felly, dywedwch wrthym pa eitemau a pham.

9. Oes unrhyw eitemau eraill yr hoffech chi eu gweld yn y bwndel babi?
Os felly, dywedwch wrthym pa eitemau a pham.

10. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau neu wasanaethau yn eich bwrdd iechyd neu ardal awdurdod lleol sydd eisoes yn darparu'r un peth neu eitemau newydd tebyg i rieni yn rhad ac am ddim?
Rhowch wybod i ni pa eitemau a chynllun.

## Cynnwys

11. Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn siŵr bod rhieni yn cael y defnydd gorau posib allan o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y bwndel, a lleihau gwastraff. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried opsiynau o ran darparu talebau yn y bwndel yn lle rhai eitemau. Gellid defnyddio'r rhain ar gyfer prynu eitemau iechyd a phersonol a / neu eitemau tymhorol. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ddarparu'r eitemau canlynol, os o gwbl?

| | Yn y bwndel | Fel taleb | Dim gwahaniaeth | Ni ddylid ei gynnwys | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Padiau mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Condomau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eli bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eitemau tymhorol e.e. siwt gysgu cynnes neu siaced gaeaf | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sling babi | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pecyn cewynnau y gellir ei ailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Oes unrhyw eitemau eraill rydych chi'n meddwl y gellid eu darparu'n well fel taleb? Cofiwch gynnwys unrhyw fanylion isod.

## Cynnwys

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnig dau fath o fwndel babi. Un ar gyfer rhieni am y tro cyntaf ac ail fwndel llai i rieni sydd â phlant eisoes. Mae hyn er mwyn lleihau dyblygu neu wastraff i'r rhai a allai fod â rhai o'r eitemau hanfodol hyn eisoes.

12. Pa un o'r eitemau canlynol ydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys mewn bwndel llai? Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau hyn, cliciwch yma.

- ☐ Siwtiau cysgu a siwtiau un-darn
- ☐ Siaced cnuf i blant 3-6 mis
- ☐ Mat chwarae
- ☐ Mat newid teithio
- ☐ Tywel bath â chwfl
- ☐ Sach gysgu
- ☐ Thermomedr babi
- ☐ Thermomedr bath/ystafell mewn un
- ☐ Sling babi
- ☐ Pecyn cewynnau y gellir ei ailddefnyddio
- ☐ Bag newid cario ar cefn
- ☐ Padiau mamolaeth
- ☐ Padiau bwydo ar y fron
- ☐ Condomau
- ☐ Eli bwydo ar y fron
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

## Cynnwys

13. Rydym am ddeall yn well y ffordd orau o gynnwys eitemau ailddefnyddiadwy / ecogyfeillgar yn y bwndel.

Pa mor debygol ydych chi'n meddwl yw'r eitemau canlynol o gael eu defnyddio gan rieni pe baen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel?

| | Tebygol iawn | Eithaf tebygol | Ddim yn debygol nac yn annhebygol | Eithaf annhebygol | Annhebygol iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pecyn cewynnau y gellir ei ailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau ol-geni/mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

14. Dywedwch wrthym a oes gennych unrhyw sylwadau am yr eitemau y gellir eu hailddefnyddio a restrir uchod, sut y gallem gynyddu'r tebygolrwydd y byddent yn cael eu defnyddio, neu unrhyw syniadau eraill ar gyfer eitemau ailddefnyddiadwy / ecogyfeillgar y gellid eu cynnwys.

## Gwybodaeth

**15. Gall y bwndel gynnwys gwybodaeth bellach am rai pynciau.**

**Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys gwybodaeth am y canlynol?**

| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Cysgu diogel | ☐ | ☐ | ☐ |
| Iechyd meddwl rhieni | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bwydo ar y fron | ☐ | ☐ | ☐ |
| Magu plentyn yn ddwyieithog | ☐ | ☐ | ☐ |

Pa bynciau neu gyngor eraill, os o gwbl, ydych chi'n teimlo sy'n bwysig i'w cynnwys yn y bwndel?

## Hysbysu rhieni am y bwndel

Cafodd peilot bwndeli babi ei gynnal yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe rhwng Medi 2020 a Mawrth 2021, a cafodd 200 o bwndeli babi eu danfon i deuluoedd oedd yn disgwyl babi o fewn y cyfnod hwn.

Bwriad y cwestiynau nesaf hyn yw deall unrhyw oblygiadau o gyflwyno'r Cynllun Bwndel Babi mewn ffordd debyg i'r Peilot.

16. Yn ystod cyfnod treialu Bwndeli Babi, cafodd rhieni wybod am y bwndel mewn apwyntiad bydwraig, gan eu bydwraig. Ydych chi'n meddwl mai dyma'r ffordd orau o roi gwybod i rieni?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

Os na, ym mha ffordd arall y dylid rhoi gwybod i rieni am y cynllun Bwndel Babi?

17. Ym mha wythnos o feichiogrwydd ydych chi'n meddwl y byddai'n briodol i rieni gael gwybod am y tro cyntaf am y bwndel babi a'i gynnwys?

## Cofrestru am y bwndel

18. Yn ystod y Peilot, cofrestrodd bydwragedd rieni ar gyfer eu bwndel yn ystod apwyntiad ante-natal. Ffurflen gofrestru papur oedd hon, a gwnaeth y fydwraig ei chwblhau gyda'r rhieni a'i phostio ar eu rhan.
Yn y dyfodol, efallai bydd opsiwn arall o lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. Fel rhywun proffesiynol, pa ddull o gofrestru ydych chi'n meddwl fyddai orau?

- ☐ Ffurflen gofrestru papur yn unig
- ☐ Ffurflen gofrestru ar-lein yn unig
- ☐ Opsiwn papur NEU ffurflenni ar-lein
- ☐ Dim ots

Allwch chi feddwl am unrhyw faterion a allai godi oherwydd defnyddio dull ar-lein o gofrestru? Beth allai fod angen ei ystyried i leihau neu atal y materion hyn?

19. Ar ba bwynt yn ystod beichiogrwydd ydych chi'n teimlo ei bod hi'n briodol i rieni gofrestru ar gyfer y bwndel?

20. Yn y peilot, roedd bydwragedd yn rhoi gwybod i rieni am y bwndel ac yna yn eu cofrestru. Beth yw eich barn am y dull hyn o weithredu ar gyfer y cynllun newydd?

### Dosbarthu'r bwndeli

21. Ar ba wythnos o feichiogrwydd ddylai'r bwndel babi gael ei ddanfon i rieni?

### Canslo bwndel

22. Mewn rhai achosion, gall rhiant gofrestru ar gyfer bwndel ond yna profi colled beichiogrwydd. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd angen rhoi gwybod i'r cyflenwr Bwndel Babi cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau nad yw bwndel yn cael ei ddarparu i'r rhieni hyn. Fel gweithiwr proffesiynol, pa opsiynau ydych chi'n meddwl sydd angen bod ar gael?
Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.

- ☐ Dylai bydwragedd gael rhif ffôn penodol i gysylltu â
- ☐ Dylai bydwragedd gael cyfeiriad e-bost penodol i gysylltu
- ☐ Dylai bydwragedd lenwi ffurflen ar-lein
- ☐ Dylid darparu rhif ffôn penodol i rieni i gysylltu
- ☐ Dylid rhoi cyfeiriad e-bost penodol i rieni i gysylltu
- ☐ Dylai rhieni allu llenwi ffurflen ar-lein
- ☐ Dull arall (Nodwch)

### Canslo bwndel

23. Gall fod achosion lle mae rhiant yn profi colled newydd-anedig ar ôl i'r bwndel gael ei ddanfon atynt. Efallai y byddan nhw'n dymuno dychwelyd y bwndel.
Fel rhywun proffesiynol, pa opsiynau ydych chi'n credu sydd angen bod ar gael i drefnu hyn?

- ☐ Dylai bydwragedd/Ymwelwyr Iechyd gael rhif ffôn penodol i gysylltu â threfnu
- ☐ Dylai bydwragedd/Ymwelwyr Iechyd gael cyfeiriad e-bost penodol i gysylltu a threfnu
- ☐ Dylai Bydwragedd/Ymwelwyr Iechyd gwblhau ffurflen ar-lein
- ☐ Dylid darparu rhif ffôn penodol i rieni i gysylltu
- ☐ Dylid rhoi cyfeiriad e-bost penodol i rieni i gysylltu
- ☐ Dylai rhieni allu llenwi ffurflen ar-lein
- ☐ Dull arall (nodwch)

### Gwybodaeth ychwanegol

24. Pa sylwadau eraill sydd gennych am y cynllun Bwndel Babi?

Rydych wedi cyrraedd diwedd yr arolwg.
Cliciwch ar **'Gorffen'** isod i rannu eich atebion.

Ar y dudalen nesaf gofynnir i chi a hoffech drafod y cynllun Bwndeli Babi yn fanylach neu os hoffech gymryd rhan mewn gweithgor i brofi syniadau a helpu i lunio'r cynllun Bwndeli Babi. Gadewch eich manylion os oes gennych ddiddordeb.

## Atodiad C: Canllawiau Pynciau

**BWNDELI BABI: CANLLAW I'R PYNCIAU AR GYFER CYFWELIADAU NEU GRŴP FFOCWS GWEITHWYR PROFFESIYNOL**

**(Lluniwyd y rhain i weithio fel canllaw i'r pynciau cyfweld, ond os yw grwpiau ffocws yn bosibl, gofynnir yr un cwestiynau)**

**<u>CYFLWYNIAD</u>**

a. Cyflwyniadau, plws diolch am wneud amser i gyfranogi, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol
b. Y Cynllun Bwndeli Babi, y peilot a'r gwaith ymchwil cyfredol (cydnabod bod yr arolwg wedi'i gwblhau, bydd yn cael ei drafod yn fanylach yn y cyfweliad/grŵp yma)
c. Cadarnhau bod yr hysbysiad preifatrwydd wedi'i dderbyn – ategu'r prif bwyntiau.

**<u>CEFNDIR</u>**

1. **Beth yw eich rôl? Beth yw eich cysylltiad â darpar rieni a/neu rieni newydd?**

2. **Oeddech chi wedi clywed am y cynllun bwndeli babi (cyn y gwahoddiad/yr arolwg hwn), ac os felly, beth rydych chi'n ei wybod am y cynllun, a beth yw eich argraff gyffredinol?**

**<u>CYNNWYS Y BWNDEL BABI</u>**

3. **Efallai byddwch yn cofio o'r arolwg bod rhestr o eitemau y gellid eu cynnwys yn y bwndel: [Nodyn i'r hwylusydd – dangoswch y rhain neu eu rhestru'n gryno]**

- Eitemau dillad baban
- Mat chwarae
- Mat newid symudol
- Lliain bath â chwfl
- Sach gysgu
- Thermomedr babi
- Thermomedr bath ac ystafell yn un
- Lapiad/sling baban
- Pecyn cychwynnol o gewynnau amldro **[Nodyn i'r hwylusydd: esboniwch y byddwn ni'n trafod hyn yn nes ymlaen]**
- Bag newid ar ffurf sach gefn
- Padiau mamolaeth
- Padiau bronnau
- Condomau
- Eli tethi

**Yn yr arolwg, roedd gan rai ymatebwyr sylwadau ar rai o'r eitemau a gynigiwyd ar gyfer y bwndeli. Gaf fi fynd trwy rai o'r rheiny, i weld ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?**

- **Eitemau dillad babi** – roedd llawer yn meddwl byddai dillad yn ddefnyddiol; ond roedd rhai o'r farn y bydden nhw'n cael eu gwastraffu, ac fe ddwedson nhw wrthyn ni y byddai'n well gan rieni brynu eu rhai eu hunain, neu y byddai sicrhau'r maint neu'r tymor cywir yn anodd.
    - Beth yw eich barn? Oes yna unrhyw beth penodol dylen ni ystyried o ran eitemau dillad babi?
    - Beth yw eich barn ynghylch cynnwys eitemau tymhorol fel siaced gnu?

- **Thermomedrau – thermomedr ystafell/bath**. Roedd y rhan fwyaf yn meddwl y byddai hyn yn ddefnyddiol iawn. Ond dywedodd rhai wrthyn ni nad oedden nhw'n argymell dibynnu ar thermomedrau bath.
    - Beth yw eich barn? Oes yna unrhyw beth penodol dylen ni ei ystyried o ran thermomedr ystafell/bath, neu thermomedrau corff?

- **Sachau cysgu**. Eto, roedd y mwyafrif yn meddwl y byddai'r rhain yn ddefnyddiol, ond cododd rhai bryderon ynghylch defnydd diogel ynghylch oed a phwysau babanod a sicrhau pwysau tog priodol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn.
    - Beth yw eich barn? Oes yna unrhyw beth penodol dylen ni ystyried o ran sachau cysgu?
        - ➢ Awgrym: Oes yna unrhyw adnoddau yn ymwneud â diogelwch y dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio atynt wrth ystyried cynnwys sach gysgu?

- **Slingiau/cludwyr babanod.** Fel yn achos sachau cysgu, codwyd materion ynghylch defnydd diogel a phryderon na fyddent o reidrwydd yn cael eu defnyddio.
    - Beth yw eich barn? Oes yna unrhyw beth penodol dylen ni ystyried o ran slingiau babi?
        - ➢ Awgrym: Oes yna unrhyw adnoddau yn ymwneud â diogelwch y dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio atynt wrth ystyried cynnwys sling/cludwr baban?

- **Condomau**. Er bod y mwyafrif yn dweud y byddai'r rhain yn ddefnyddiol, meddyliai rhai y gallen nhw fod yn broblematig am sawl rheswm, e.e. yn amhriodol i'r diwylliannau hynny nad ydynt yn eu defnyddio, ac ar gyfer cyplau un rhyw benywaidd, alergeddau posibl, a'r ffaith bod rhieni eisoes yn gallu eu cael am ddim
    - Beth yw eich barn? Ddylai condomau gael eu cynnwys?

- **Eli tethi.** Eto, dywedodd y mwyafrif y byddai hyn yn ddefnyddiol, ond gwnaed sylwadau am eitemau bwydo ar y fron yn wastraff i rai, yn peri trallod i'r rhai sy'n methu bwydo ar y fron, a/neu'n awgrymu y gallai bwydo ar y fron achosi tethi poenus.
    - Beth yw eich barn? Oes yna unrhyw beth penodol y dylen ni ei ystyried yn achos eli tethi?

4. **Hoffech chi drafod unrhyw elfennau eraill o'r cynnwys, neu wneud awgrymiadau pellach ar gyfer eitemau i'w cynnwys neu beidio â'u cynnwys?**

**<u>Addasrwydd y cynnwys i bob rhiant</u>**

5. **Mae'r bwndeli'n cael eu llunio i fod yn gynhwysol, a'r nod yw eu bod mor addas â phosibl i rieni.**

**Ydych chi'n gweithio gydag unrhyw rai o'r rhieni canlynol? Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar addasrwydd unrhyw eitemau sy'n rhan o gynnwys y bwndel ar gyfer y grwpiau hynny o rieni?**

- Rhieni sy'n disgwyl efeilliaid, tripledi neu fwy
- Rhieni ifanc
- Rhieni ag anabledd
- Rhieni sydd wedi ailbennu rhywedd neu sy'n cynllunio hynny
- Rhieni mewn perthynas un rhyw
- Rhieni o wahanol gefndiroedd ethnig
- Rhieni o wahanol grefyddau
- Rhieni o aelwydydd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y cartref
- Gofalwyr Plant sy'n Derbyn Gofal
- Rhieni mabwysiadol plant o dan un oed
- Rhieni plant a aned trwy fenthyg croth

**<u>CYNNWYS – YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL a THALEBAU</u>**

6. **Gellir cynnwys rhai eitemau llesol i'r amgylchedd a/neu amldro yn y Bwndel, gan gynnwys cewynnau amldro. Yn y peilot, cafodd y rhieni 1 lapiad allanol a 5 leinin yn becyn cychwynnol. Ydych chi'n meddwl byddai hyn yn ddigonol i riant roi cynnig ar gewynnau amldro?**

- ➢ Awgrym: Cewynnau pa faint rydych chi'n meddwl fyddai orau i'w darparu i rieni – maint newyddeni neu rai i blentyn hŷn? Os maint hŷn, pa faint?
- ➢ Awgrym: Pa fathau o wybodaeth/gyfarwyddiadau gallai fod ar rieni eu hangen i'w cefnogi i ddechrau defnyddio cewynnau amldro?
- ➢ Awgrym: Ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau wrth ddarparu pecyn cychwynnol o gewynnau amldro yn y bwndel?

7. **Gellir cynnwys eitemau eraill llesol i'r amgylch a/neu eitemau amldro yn ogystal, megis padiau bronnau amldro, a chewynnau bioddiraddadwy. Ydych chi'n meddwl byddai'r eitemau hyn yn ddefnyddiol i rieni?**

- ➢ Awgrym: Unrhyw beth penodol i'w ystyried wrth ddarparu cewynnau bioddiraddadwy neu badiau bronnau amldro?

- ➢ Awgrym: Pa eitemau eraill amldro neu lesol i'r amgylchedd allai gael eu cynnwys?

8. **Fel yr esboniwyd yn yr arolwg, gellir darparu talebau yn y bwndel yn lle rhai eitemau. Beth yw eich barn chi ar gynnwys yr eitemau canlynol ar ffurf taleb?:**

- Sling/lapiad baban
- Bag newid ar ffurf sach gefn
- Pecyn cychwynnol o gewynnau amldro
- Eitemau tymhorol megis eitemau penodol o ddillad (h.y. y siaced gnu a'r sachau cysgu)

**Ydych chi'n meddwl byddai'r eitemau personol a iechyd canlynol, o'u cynnwys, yn fwy addas ar ffurf taleb?:**

- Padiau mamolaeth
- Padiau bronnau
- Condomau
- Eli tethi

9. **Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau ynghlwm wrth ddarparu talebau fel rhan o'r bwndel i'r rhieni rydych chi'n gweithio gyda nhw?**

- ➢ Awgrym: Os oes, beth a pham?
- ➢ Awgrym: Oes yna unrhyw ystyriaethau i sicrhau defnydd priodol o'r talebau?

**<u>GWYBODAETH</u>**

10. **Gallai'r bwndel gynnwys rhai taflenni, neu adnoddau digidol gyda phynciau cysylltiedig â beichiogrwydd/magu plant. Ymhlith y pynciau a awgrymwyd roedd:**

- Cysgu diogel
- Iechyd meddwl rhieni
- Bwydo ar y fron
- Magu plentyn yn ddwyieithog

**A fyddai'n ddefnyddiol i chi, fel gweithwyr proffesiynol, gael gwybodaeth am y pynciau hyn yn y bwndel? Ydy hyn yn rhywbeth fyddai'n ddefnyddiol i rieni?**

- ➢ Awgrym: Ydych chi'n darparu gwybodaeth am y pynciau hyn beth bynnag?
- ➢ Awgrym: Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn argymell ailgyflwyno 'Bump, Baby and Beyond' – oes gennych chi unrhyw feddyliau am hynny?

11. **Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau y dylid eu hystyried wrth ddarparu taflenni neu adnoddau digidol i rieni?**

- Awgrym**:** e.e. Saesneg fel iaith ychwanegol, anghenion cefnogi darllen ac ysgrifennu, fformatau amgen sy'n ofynnol, fel Braille etc.

12. **Heblaw amdanoch chi/eich tîm, o ble mae rhieni'n tueddu i gael gwybodaeth ynghylch beichiogrwydd a magu plant?**

- Awgrym: Oes yna wefannau penodol neu ffynonellau gwybodaeth eraill sy'n cael eu defnyddio'n aml?

**<u>COFRESTRU AR GYFER Y BWNDEL</u>**

13. **[Ar gyfer bydwragedd a'r rhai sy'n gweithio gyda darpar rieni] Sut mae rhieni fel arfer yn cael gwybod am y gwahanol adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw yn ystod eu beichiogrwydd ac ar ôl i'w baban gael ei eni?**

14. **Pa fathau o wybodaeth rydych chi'n meddwl fyddai bwysicaf i ddarpar rieni ei gwybod am y bwndeli babi, a sut gallai'r wybodaeth honno gael ei chyfleu'n effeithiol?**

- Awgrym: Os yw hynny'n digwydd yn ystod apwyntiad, pa un? [**Nodyn i'r Hwylusydd – i'w ofyn dim ond os bydd y cyfranogwyr yn awgrymu apwyntiadau Bydwraig fel opsiwn]**
- Awgrym: Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau wrth hysbysu darpar rieni am y cynllun?

15. **Yn yr arolwg y buoch chi'n rhan ohono, mae llawer o fydwragedd wedi dweud y byddai'n fuddiol ac mai'r dull gorau fyddai bod bydwragedd yn ymwneud â chofrestru rhieni ar gyfer bwndeli. Ar y llaw arall, mae llawer wedi pwysleisio llwyth gwaith trwm bydwragedd.**

    **Oes gennych chi unrhyw syniadau ar gyfer sut gallai cofrestru ar gyfer bwndel gael ei symleiddio gymaint â phosibl ar gyfer bydwragedd a rhieni?**

- Awgrym: Ymhlith y syniadau a gynigiwyd eisoes gan fydwragedd roedd:
  - Bod rhieni'n cofrestru eu hunain, ond gyda bydwragedd yn cefnogi hynny trwy wneud y canlynol:
    - Rhoi taflen wybodaeth fanwl i rieni
    - Rhoi cod QR i rieni ar gyfer cofrestru ar-lein
    - Cefnogi rhieni i gofrestru lle bo angen
  - Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun trwy bosteri yn ardaloedd clinigau cyn geni

- Gall rhieni brofi eu bod yn gymwys ar gyfer y cynllun trwy ddarparu ffurflen MAT B1
- Edrych ar y posibilrwydd o awtomeiddio trwy ddefnyddio systemau mamolaeth i wahodd rhieni i gofrestru

➢ Awgrym: Pa gefnogaeth/wybodaeth/hyfforddiant byddai ar fydwragedd eu hangen i helpu darpar rieni i gofrestru ar gyfer y cynllun?

**16. Oes gan rai o'r rhieni rydych chi'n gweithio gyda nhw unrhyw anghenion cymorth neu ychwanegol y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth gofrestru ar gyfer y bwndel?**

➢ Awgrym: Sut gallan nhw gael eu cefnogi?
➢ O ddychwelyd at y rhestr/drafodaeth yng nghwestiwn 5: oes yna unrhyw anawsterau penodol wrth sicrhau bod rhai grwpiau o rieni'n gallu derbyn gwybodaeth am y cynllun a chofrestru ar ei gyfer?
➢ Rhieni sydd ddim mewn cysylltiad â'r gwasanaeth bydwreigiaeth/sy'n hwyr yn cysylltu â'r gwasanaeth bydwreigiaeth?
➢ Rhieni plant a anwyd trwy fenthyg croth, rhieni mabwysiadol, rhieni heb gyfeiriad sefydlog?

**17. Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau eraill posibl wrth sicrhau bod rhieni'n cofrestru ar gyfer y cynllun?**

➢ Awgrym: Oes yna unrhyw rwystrau i gofrestru ar-lein a fyddai'n her? [**Nodyn i'r hwylusydd: anllythrennedd digidol posibl, tlodi digidol/rhieni wedi'u cau allan**] Os gallai'r rhwystrau hyn fod yn bresennol, sut rydych chi'n meddwl gallai'r rhain gael eu goresgyn?

**<u>DERBYN Y BWNDEL</u>**

**18. Yr wythnosau beichiogrwydd mwyaf poblogaidd a awgrymwyd gan weithwyr proffesiynol ar gyfer dosbarthu bwndel oedd wythnos 30 ac wythnos 36. Yr wythnos fwyaf poblogaidd ymhlith rhieni oedd wythnos 30. Beth yw eich barn am y dyddiadau hyn a awgrymwyd?**

➢ Awgrym: Oes yna unrhyw reswm pam byddai wythnos 36 yn fwy priodol nag wythnos 30 ar gyfer dosbarthu bwndel?

**19. Colli baban yn ystod beichiogrwydd a cholli baban newyddanedig: Mewn rhai achosion, gall rhiant fod wedi cofrestru ar gyfer Bwndel neu fod wedi'i dderbyn, ond yna colli'r baban yn ystod beichiogrwydd neu yn y cyfnod newyddanedig. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd angen rhoi gwybod i gyflenwr y Bwndel cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau nad yw Bwndel yn cael ei ddosbarthu i'r rhieni hyn, neu bod Bwndel a ddosbarthwyd yn flaenorol yn cael ei gasglu (os yw'r rhiant/rhieni yn dymuno hynny).**

**Pa rôl rydych chi'n meddwl dylai bydwragedd ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill ei chwarae yn y broses hon?**

**<u>YCHWANEGOL / YSTYRIAETHAU ERAILL</u>**

20. **Sut rydych chi'n meddwl dylai gweithwyr iechyd proffesiynol gael eu hysbysu ynghylch y cynllun bwndeli babi?**

21. **Oes yna unrhyw anghenion neu ystyriaethau penodol eraill dydyn ni ddim wedi eu cynnwys y dylid rhoi sylw iddyn nhw wrth gynllunio'r Cynllun Bwndeli Babi?**

**BWNDELI BABI: CANLLAW I'R PYNCIAU AR GYFER CYFWELIADAU SEFYDLIADAU/RHANDDEILIAID**

**<u>CYFLWYNIAD</u>**

a. Cyflwyniadau. Yr *Hwylusydd* i bwysleisio bod gennym ni ddiddordeb arbennig yn eu mewnwelediad i anghenion grŵp/grwpiau penodol o rieni y maent yn gweithio gyda nhw, ac y dylen nhw ddefnyddio'u harbenigedd i gynrychioli'r rhieni hyn yn yr atebion maen nhw'n eu rhoi
b. Y Cynllun Bwndeli Babi, y peilot a'r gwaith ymchwil cyfredol
c. Cadarnhau bod yr hysbysiad preifatrwydd wedi'i dderbyn – ategu'r prif bwyntiau.

**<u>CEFNDIR A RÔL</u>**

1. **Beth yw eich rôl? Beth yw eich prif gyfrifoldebau yn [y sefydliad]?**
Sut rydych chi/Sut mae eich sefydliad yn gweithio gyda rhieni, teuluoedd neu blant ifanc?

2. **Beth yw'r prif ystyriaethau wrth ddarparu gwasanaethau i'r [grŵp cleientiaid] a'u cefnogi?**

**<u>CYNNWYS Y BWNDEL BABI - CYFFREDINOL</u>**

3. **Bydd y bwndel babi yn cynnwys amrywiaeth o eitemau, a allai gynnwys dillad, mat newid, thermomedr a bag newid. Oes yna unrhyw eitemau <u>yn arbennig</u> y byddai ar eich cleientiaid eu hangen, neu y byddent yn hoffi iddyn nhw gael eu cynnwys yn y bwndel?**

    - Awgrym: Gallai'r eitemau hyn fod yn y bwndel. Ydych chi'n meddwl byddai'r rhieni yn eich grŵp cleientiaid yn cael bod yr eitemau hyn yn ddefnyddiol?

- Eitemau dillad babi
- Mat chwarae
- Mat newid symudol
- Lliain bath â chwfl
- Sach gysgu
- Thermomedr babi
- Thermomedr bath ac ystafell yn un
- Lapiad/sling baban
- Pecyn cychwynnol o gewynnau amldro
- Bag newid ar ffurf sach gefn
- Padiau mamolaeth
- Padiau bronnau
- Condomau
- Eli tethi

➢ Awgrym: Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau posibl ynghlwm wrth ddarparu unrhyw rai o'r eitemau hynny i'ch grŵp cleientiaid?

➢ Awgrym: Oes yna unrhyw eitemau y gallai fod angen eu haddasu neu eu hegluro?

➢ Awgrym: Oes yna unrhyw eitemau a allai gael eu gwastraffu petaen nhw'n cael eu rhoi i'ch grŵp cleientiaid?

**4. Oes yna eitemau eraill fyddai'n ddefnyddiol i'ch grŵp cleientiaid, ac y gellid eu cynnwys yn y bwndel?**

➢ Awgrym: Os oes, pa eitemau a pham?

<u>**CYNNWYS – TALEBAU, YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL**</u>

***5.*** **Gellir darparu talebau yn y bwndel yn lle rhai eitemau. Gallai'r rhain gael eu defnyddio gan rieni i brynu eitemau iechyd a phersonol a/neu eitemau tymhorol.**

➢ A fyddai taleb yn addas i'ch grŵp cleientiaid chi ar gyfer rhai eitemau?

➢ Wrth feddwl am eich grŵp cleientiaid, oes yna unrhyw eitemau eraill y byddai'n well eu darparu ar ffurf taleb yn hytrach nag eitem?

➢ Nodyn i'r Hwylusydd: (i) Gellir rhoi'r eitemau hyn ar ffurf taleb yn hytrach na'u cynnwys yn y bwndel; a (ii) ni fydd yr holl eitemau yn briodol ar gyfer pob grŵp, e.e. y rhai nad ydynt yn rhoi genedigaeth.

- Padiau mamolaeth
- Padiau bwydo ar y fron
- Condomau
- Eli bwydo ar y fron
- Eitemau tymhorol, e.e. siwt gysgu gynnes neu siaced aeaf
- Lapiad/sling baban
- Pecyn cychwynnol o gewynnau amldro

**6. Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau ynghlwm wrth ddarparu talebau fel rhan o'r bwndel i'ch grŵp cleientiaid?**

➢ Awgrym: Os oes, beth a pham?

**7.** **Gellir cynnwys rhai eitemau llesol i'r amgylchedd a/neu amldro yn y bwndel, gan gynnwys padiau bronnau a mamolaeth amldro, a chewynnau amldro. Ydych chi'n meddwl byddai'r eitemau hyn yn cael eu defnyddio gan eich grŵp cleientiaid petaen nhw yn y bwndel?**
Nodyn i'r Hwylusydd, fel uchod ni fydd yr holl eitemau'n briodol ar gyfer pob grŵp, e.e. y rhai nad ydynt yn rhoi genedigaeth.

- Awgrym: Os ydynt, pa eitemau?
- Awgrym: Os nad ydynt, pam?
- Awgrym: Pa eitemau eraill amldro neu lesol i'r amgylchedd allai gael eu cynnwys?

8. **Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau ynghlwm wrth ddarparu eitemau amldro i'ch grŵp cleientiaid?**

## <u>GWYBODAETH</u>

9. **Cyffredinol – Mae'r cwestiynau nesaf yn ymwneud â thaflenni a allai ddod gyda'r bwndel, ac wedyn â llenwi ffurflenni i gofrestru ar gyfer y bwndel. Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau y dylem ni eu hystyried wrth ddarparu deunydd ysgrifenedig i [eich grŵp cleientiaid]?**

Awgrym: Materion hygyrchedd?
Unrhyw ystyriaethau eraill, e.e. Saesneg fel iaith ychwanegol, anghenion cefnogi darllen ac ysgrifennu, fformatau amgen sy'n ofynnol, megis Braille etc.

10. **Gallai'r bwndel gynnwys rhai taflenni, neu adnoddau digidol gyda phynciau cysylltiedig â beichiogrwydd/magu plant. Ydy hyn yn rhywbeth byddai rhieni yn eich grŵp cleientiaid yn ei gael yn ddefnyddiol?**

Awgrym: Os ydy, pa bynciau ddylai gael eu cynnwys? / Pa wybodaeth rydych chi'n teimlo fyddai'n fwyaf defnyddiol i rieni newydd yn eich grŵp cleientiaid?

**11.** **Gallai'r wybodaeth neu'r cyngor fod ar ffurf taflenni papur yn y bwndel, neu gallai fod yn wybodaeth fyddai'n cyfeirio rhieni at wefannau neu apiau yn cynnwys gwybodaeth a chyngor pellach. Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau wrth ddarparu taflenni neu adnoddau digidol i'ch grŵp cleientiaid?**

**12.** **Ble mae [eich grŵp cleientiaid] fel arfer yn cael gwybodaeth ynghylch beichiogrwydd a magu plant?**

- Unrhyw sylwadau ar y defnydd o fydwragedd ac ymwelwyr iechyd

- Oes yna wefannau penodol neu ffynonellau gwybodaeth eraill a ddefnyddir yn aml?

## COFRESTRU AR GYFER Y BWNDEL

**13. Gellir cofrestru ar gyfer y bwndel ar-lein neu â ffurflen bapur, gyda neu heb help bydwraig. Oes gan eich cleientiaid unrhyw anghenion cefnogi neu ychwanegol y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth gofrestru ar gyfer y bwndel?**

- Awgrym: Oes yna unrhyw anawsterau neu heriau posibl yn gysylltiedig â'r canlynol:
  - (i) llenwi ffurflenni papur/ar-lein;
  - (ii) cael mynediad i'r rhyngrwyd;
  - (iii) ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol a all gwblhau'r cofrestriad?

**14. (Os yw'n berthnasol/hysbys) Oes unrhyw rai [o'ch grŵp cleientiaid] yn annhebygol o fod mewn cysylltiad â'r gwasanaeth bydwreigiaeth yn ystod eu beichiogrwydd? Os felly, pa anghenion fyddai ganddynt er mwyn cofrestru ar gyfer y bwndel / ei dderbyn?**

- Yr Hwylusydd i deilwra'r cwestiwn yn ôl y sefydliad – sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n ffoaduriaid/geiswyr lloches; rhieni plant a anwyd trwy fenthyg croth; rhieni mabwysiadol etc.

## DERBYN Y BWNDEL

**15. Bydd y bwndel yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i ddarpar rieni yn ystod eu beichiogrwydd. Oes yna unrhyw ystyriaethau mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt wrth ddosbarthu'r bwndel i rieni yn eich grŵp cleientiaid?**

- Awgrym: Oes gan eich cleientiaid gyfeiriad sefydlog fel arfer?

Os gallai fod anawsterau, beth sydd angen ei drefnu i helpu [eich grŵp cleientiaid] i gofrestru/dderbyn y bwndel?

## YCHWANEGOL / YSTYRIAETHAU ERAILL

**16. Oes yna unrhyw anghenion penodol neu ystyriaethau eraill nad ydym wedi'u trafod y dylid rhoi sylw iddynt yn achos eich grŵp cleientiaid?**

**BWNDELI BABI: CANLLAW I'R PYNCIAU AR GYFER GRWPIAU FFOCWS RHIENI**

**<u>DS</u>** Mae'r amseru wedi'i seilio ar grŵp rhithwir 1 awr o hyd; ond mae modd ei newid yn ôl y galw os bydd angen

**<u>CYFLWYNIAD (5 munud)</u>**

**<u>Cyflwyniadau a chroeso i drafodaeth y grŵp</u>**

Yr Hwylusydd i roi sylw i'r canlynol:

a. Cyflwyniadau unigol
b. Yr Hwylusydd i roi disgrifiad cryno o'r Cynllun Bwndeli Babi a'r ymchwil

- Cadarnhau bod yr hysbysiad preifatrwydd wedi'i dderbyn – ategu'r prif bwyntiau, gan gynnwys recordio sain/fideo lle bo'n berthnasol)

**<u>Cyflwyniad i'r Bwndeli Babi</u>**

1. **Ydych chi wedi clywed am y cynllun Bwndeli Babi o'r blaen, naill ai yng Nghymru neu enghreifftiau mewn mannau eraill? Beth rydych chi'n ei wybod amdano?**

*[sleid ar y sgrîn] Nodyn i'r Hwylusydd – rhannwch ddelwedd o fwndel babi, gan esbonio bod hon yn enghraifft o beilot a gynhaliwyd yn 2021.*




**<u>CYNNWYS Y BWNDEL BABI – CYFFREDINOL (20 munud)</u>**

2. **Pa fathau o eitemau fyddai'n fwyaf defnyddiol i chi?**

- Awgrym: Beth byddech chi'n disgwyl ei weld? Beth byddai'n braf ei gael?

3. **Nawr bydda i'n mynd trwy restr o eitemau allai gael eu cynnwys yn y bwndel.** Byddwn ni'n trafod beth sy'n ddefnyddiol a beth sydd ddim, ac yn codi llaw yn gyflym. (*Nodyn i'r Hwylusydd – codi dwylo neu bleidleisio yn ôl y*

*platfform sy'n cael ei ddefnyddio*). Yna byddwn ni'n trafod pob eitem yn fyr, ond os bydd pawb ohonon ni'n gytûn, fe symudwn ni ymlaen at y nesaf.

- **Gallai'r eitemau hyn gael eu cynnwys yn y bwndel. Fyddai'r eitemau hyn yn ddefnyddiol i chi?** (*Dylai fod gan yr Hwylusydd restr o luniau a diffiniadau wrth law, fel y defnyddiwyd ar gyfer yr arolwg, i'w rhannu ar y sgrin os bydd angen*)
  - Eitemau dillad babi
  - Mat chwarae
  - Mat newid cludadwy
  - Lliain bath â chwfl
  - Sach gysgu
  - Thermomedr babi
  - Thermomedr bath ac ystafell yn un
  - Lapiad/sling babi
  - Pecyn cychwynnol o gewynnau amldro
  - Bag newid ar ffurf sach gefn
  - Padiau mamolaeth
  - Padiau bronnau
  - Condomau
  - Eli tethi

4. **Wrth feddwl eto am yr holl eitemau rwyf wedi'u rhestru, oes yna unrhyw eitemau sy'n eich synnu?**

   - Awgrym: Pam?

5. **Beth sydd ar goll? Oes yna eitemau eraill hoffech chi eu cael yn y bwndel babi?**

   - Awgrym: Os oes, pa eitemau a pham?

6. **Ydych chi'n meddwl byddai unrhyw rai o'r eitemau hyn <u>yn anaddas</u> i'w cynnwys yn y bwndel babi i chi'n bersonol?**

   - Awgrym: Os nad ydych, pam lai?
   - Awgrym, os bydd angen:
     - Unrhyw eitemau byddai'n well gennych chi eu prynu eich hunan?
     - Unrhyw eitemau a fyddai'n cael eu gwastraffu – pam?
     - Unrhyw eitemau byddai'n well gennych chi beidio â'u derbyn yn eich bwndel - pam?

*7.* **Ydych chi'n meddwl byddai unrhyw rai o'r eitemau hyn yn anaddas i'w cynnwys yn y bwndel babi i rai teuluoedd?** (*Nodyn i'r Hwylusydd – daliwch ati gyda'r drafodaeth flaenorol, ond efallai bydd rhai pobl yn ffafrio siarad yn fwy cyffredinol, ac nid am eu hamgylchiadau eu hunain).*

   - Awgrym: Rydym ni am fod yn sicr bod y cynnwys yn addas ac yn ddefnyddiol i bob rhiant a baban – ydych chi'n meddwl byddai'r eitemau'n addas i'r ystod

lawn o amgylchiadau teuluol, cymunedau ffydd, oedrannau, lleoliadau daearyddol etc?

8. **Ydych chi'n meddwl dylai gwahanol fwndeli gael eu darparu i wahanol grwpiau o rieni? e.e.** yn achos genedigaethau lluosog, bwndel i bob babi, gyda rhai eitemau'n cael eu rhannu ar draws y bwndeli, neu lai o eitemau mewn bwndeli ar gyfer genedigaethau dilynol, i osgoi dyblygu diangen?

    - Awgrym: Os felly, beth fyddai ffurf y bwndeli hyn?
        - Pa eitemau fyddai'n cael eu hystyried yn hanfodol ac yn gyffredinol i bob math o rieni?

**CYNNWYS Y BWNDEL BABI – TALEBAU, YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL A GWYBODAETH (15 munud)**

Cewynnau amldro

9. **I'n helpu i ddeall yn well a fyddai cynnwys pecyn cychwynnol o gewynnau amldro yn ddefnyddiol i rieni, byddem ni'n hoffi trafodaeth fanylach arnyn nhw.**

- *Nodyn i'r Hwylusydd: Esboniwch wrth unrhyw un sydd heb eu defnyddio/sydd heb wybodaeth amdanynt:*
  **Fel arfer mae cewynnau amldro yn cynnwys haen allanol wrth-ddŵr (lapiad) a haen fewnol sy'n amsugno hylif. Mae modd rhoi'r haenau allanol a mewnol yn y golch a'u hailddefnyddio. Mae hefyd yn bosibl defnyddio leinin untro gyda chewynnau amldro i ddal y cynnwys solet.**

**Allwch chi godi llaw os ydych chi'n gwybod am gewynnau amldro?**
(*Nodyn i'r Hwylusydd: Peidiwch â chynnwys hyn os yw eisoes wedi'i drafod yn yr adran flaenorol*)

- Awgrym: Oes unrhyw un wedi defnyddio neu wedi ystyried defnyddio cewynnau amldro o'r blaen?

10. **Petaen nhw'n cael eu cynnwys yn y bwndel babi, ydych chi'n meddwl byddech chi'n eu defnyddio neu'n rhoi cynnig arnyn nhw?**

- Awgrym: Os ydych, pam?
- Awgrym: Os nad ydych, beth fyddai'n eich atal rhag rhoi cynnig arnyn nhw? Beth fyddai'n eich annog chi i roi cynnig arnyn nhw?
- Awgrym: Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fanteision neu anfanteision i'w defnyddio?

11. **Petaech chi'n defnyddio/rhoi cynnig ar gewynnau amldro, faint o lapiadau a faint o haenau amsugno rydych chi'n meddwl byddai arnoch chi eu hangen i gychwyn?**

- ➢ Awgrym: Fel arfer mae angen golchi'r lapiadau yn llai aml na'r haenau amsugno
- ➢ Awgrym: Fyddech chi'n ystyried prynu mwy o haenau leinio/lapiadau a'u defnyddio nhw yn lle newid i haenau leinio untro neu gewynnau untro?

**12. Ar ba adeg byddech chi'n fwyaf tebygol o ddechrau defnyddio cewynnau amldro gyda'ch baban? Pam?**

- ➢ Awgrym: Fyddai'n well gennych chi gael cewynnau addas i faban newyddeni neu grŵp maint gwahanol? Fyddech chi'n debygol o'u defnyddio gyda'ch baban newyddeni neu aros tipyn?
- ➢ Awgrym: Hyd at gewynnau o ba faint hoffech chi weld yn y pecyn cychwynnol? Rhai newyddeni yn unig, neu ambell faint gwahanol?

**13. Pa fathau o wybodaeth, os o gwbl, gallai fod eu hangen arnoch chi i roi cychwyn ar gewynnau amldro?**

- ➢ Awgrym: Sut arall hoffech chi i'r wybodaeth yma gael ei rhoi i chi?

<u>Eitemau amldro</u>

**14. Gallai'r bwndel gynnwys rhai eitemau llesol i'r amgylchedd a/neu amldro, megis:**

- o **Padiau bronnau amldro** – fyddech chi'n defnyddio'r rhain? Oes yna unrhyw beth fyddai'n eich annog i roi cynnig arnyn nhw?
- o **Padiau mamolaeth / ôl-enedigol amldro** – fyddech chi'n defnyddio'r rhain? Oes yna unrhyw beth fyddai'n eich annog chi i roi cynnig arnyn nhw?

- ➢ Awgrym: Os na fyddech chi'n barod i ddefnyddio'r rhain, pam?

**Oes yna eitemau eraill llesol i'r amgylchedd rydych chi'n meddwl allai gael eu cynnwys yn y bwndel?**

- ➢ Awgrym: er enghraifft, cewynnau untro bioddiraddadwy.

<u>Talebau</u>

**15. Gellir darparu talebau yn y bwndel babi yn lle rhai eitemau. Gallai'r rhain gael eu defnyddio i brynu eitemau iechyd a phersonol a/neu eitemau tymhorol.**

**Gellid darparu rhai o'r eitemau canlynol ar ffurf taleb yn hytrach na'r eitem ei hun.** (*Yr Hwylusydd i ddarllen/ddangos y rhestr*)

**Fyddai'n well gennych chi dderbyn yr eitemau hyn yn y bwndel neu ar ffurf taleb? Pam byddech chi'n ffafrio taleb/yr eitemau eu hunain ym mhob achos?** *(Nodyn i'r Hwylusydd: gofalwch fod lluniau/disgrifiadau wrth law os bydd angen)*

- Padiau mamolaeth

- Padiau bwydo ar y fron
- Condomau
- Eli bwydo ar y fron
- Eitemau tymhorol e.e. sachau cysgu neu siaced aeaf gnu
- Lapiad/sling baban
- Pecyn cychwynnol o gewynnau amldro

**Oes yna eitemau eraill rydych chi'n meddwl y byddai'n well eu darparu ar ffurf taleb?**

- Awgrym: Os felly, pa eitemau a pham?

Gwybodaeth

**16. Gallai'r bwndeli gynnwys gwybodaeth bellach ar rai pynciau i rieni, er enghraifft, cysgu diogel, iechyd meddwl rhieni, bwydo ar y fron, a magu eich plentyn yn ddwyieithog. Beth yw eich barn ar dderbyn y mathau yma o wybodaeth yn y bwndel?**

- Awgrym: Ydych chi'n meddwl bod darparu gwybodaeth am y pynciau hyn yn bwysig neu beidio? Pam?

**17. Oes yna unrhyw bynciau eraill neu wybodaeth arall rydych chi'n meddwl ddylai gael eu cynnwys?**

- Awgrym: Os felly, pam?

**18. Gallai'r wybodaeth neu'r cyngor fod yn daflen bapur neu'n rhywbeth tebyg fyddai'n cael ei gynnwys gyda'r bwndel, neu gallai fod yn wybodaeth yn eich cyfeirio at wefannau neu apiau yn cynnwys rhagor o wybodaeth a chyngor.**

  - Fyddech chi'n debygol o ddarllen unrhyw adnoddau papur oedd yn cael eu cynnwys gyda'ch bwndel?

Fyddech chi'n dilyn unrhyw ddolenni gwe neu gyfeiriadau tebyg petaen nhw'n cael eu cynnwys gyda'ch bwndel?

**DOSBARTHU'R BWNDEL (10 munud)**

- **Sut a phryd byddech chi'n hoffi cael gwybod am y bwndel babi a'i gynnwys?**

- Awgrym: Pryd yn eich beichiogrwydd? Gan bwy?
- Awgrym: Ble byddwch chi'n mynd fel arfer i gael gwybodaeth am feichiogrwydd, genedigaeth a magu plant?
  - Ar-lein – ble?
  - Apiau – pa rai?
  - Ffrindiau a theulu – pa berthnasau/grwpiau?
  - Gweithwyr iechyd proffesiynol – sut a phryd?
  - Arall?

- **Yn eich barn chi, pryd yw'r adeg briodol i ddosbarthu'r bwndel i rieni?** Oes yna gyfnod penodol/wythnos benodol yn ystod y beichiogrwydd? (*Nodyn i'r Hwylusydd: Dylech hepgor yr awgrym hwn os yw'r rhieni'n rhai mabwysiadol)*

- Awgrym: Oes yna unrhyw beth y mae angen ei gymryd i ystyriaeth wrth amseru dosbarthu'r bwndel i rieni?

**Cwestiynau ychwanegol / cwestiynau wedi'u teilwra ar gyfer rhai grwpiau ffocws (10 munud ychwanegol, os bydd angen)**

**Oes yna unrhyw beth dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried ar gyfer y gymuned [genedigaethau lluosog / rhieni mabwysiadol / rhieni iau / rhieni ag anabledd…] etc. wrth iddyn nhw gynllunio'r Cynllun Bwndeli Babi?**

- Oes yna unrhyw eitemau yn y bwndel y byddai angen eu haddasu?
  - Pa eitemau a pham?
- A ddylai trefniant gwahanol gael ei ystyried ar gyfer cofrestru ar gyfer y bwndel a'i ddosbarthu? h.y. sut mae cofrestru'r cyfeiriad fydd yn derbyn y bwndel
- Pa drefniadau a pham?

**TERFYNOL (5munud)**

**Oes yna unrhyw beth arall dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried wrth lunio'r cynllun bwndeli babi?**

**Lluniau o'r Bwndel a'r Cynnwys ar gyfer y Grŵp Ffocws i Rieni (gydag Awgrymiadau os bydd angen)**




## Enghraifft o'r **Bwndel Babi**

## Gellir cynnwys yr eitemau hyn. A fydden nhw'n ddefnyddiol?

- Dillad babi (Cynnwys siaced fleece)
- Mat chwarae
- Mat newid ar gyfer teithio
- Lliain bath fel hwdi
- Sach gysgu
- Thermomedr babi
- Thermomedr ystafell a bath mewn un
- Clytiau/cewynnau i'w hailddefnyddio
- Sling cario babi
- Bag newid 'rucksack'
- Padiau mamolaeth
- Padiau bwydo ar y fron
- Condomau
- Eli i'r deth

## Cewynnau y gellir eu hailddefnyddio: A fyddech chi'n defnyddio?



## Atodiad D: Demograffeg yr ymatebwyr i'r Arolwg Rhieni

Sylwch lle nad yw canrannau'n cyfateb i 100% mae hyn o ganlyniad i dalgrynnu i un lle degol.

**Tabl D.1: Oed yr ymatebydd**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| O dan 18 | 10 | 0.9% |
| 18-24 | 106 | 9.8% |
| 25-34 | 671 | 62.3% |
| 35-44 | 278 | 25.8% |
| 45 neu hŷn | 8 | 0.7% |
| Dewis peidio â dweud | 4 | 0.4% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni (1,077) yn yr arolwg – ni roddodd 1 o'r ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn

**Tabl D.2: Rhyw yr ymatebydd**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Benyw | 1,057 | 98.1% |
| Gwryw | 17 | 1.6% |
| Dewis peidio â dweud | 4 | 0.4% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni (1,078) yn yr arolwg

**Tabl D.3: Ydy eich hunaniaeth rhywedd yn cyfateb i gofrestriad eich rhyw adeg eich geni?**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 1,052 | 98.8% |
| Nac ydy | 8 | 0.8% |
| Dewis peidio â dweud | 5 | 0.5% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni (1,065) yn yr arolwg – ni roddodd 13 o'r ymatebwyr ateb i'r cwestiwn

**Tabl D.4: Beth yw prif iaith/ieithoedd eich cartref?**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cymraeg | 84 | 7.8% |
| Saesneg | 978 | 90.7% |
| Iaith arall/Ieithoedd eraill | 13 | 1.2% |
| Dewis peidio â dweud | 3 | 0.3% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni (1,078) yn yr arolwg

**Tabl D.5: Oes gennych chi unrhyw gyflyrau iechyd corff neu feddwl sy'n parhau neu y mae disgwyl iddynt barhau am 12 mis neu fwy?**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 188 | 17.5% |
| Nac oes | 855 | 79.5% |
| Dewis peidio â dweud | 33 | 3.1% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni (1,076) yn yr arolwg – ni roddodd 2 o'r ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn

**Tabl D.6: Statws cyflogaeth**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cyflogedig – llawn amser | 545 | 50.7% |
| Cyflogedig – rhan amser | 273 | 25.4% |
| Cyflogedig – contract oriau sero | 10 | 0.9% |
| Hunangyflogedig / Hunanliwtio | 46 | 4.3% |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 17 | 1.6% |
| Heb fod mewn gwaith na hyfforddiant – yn chwilio am waith | 11 | 1.0% |
| Heb fod mewn gwaith – ddim yn chwilio am waith | 98 | 9.1% |
| Arall | 43 | 4.0% |
| Dewis peidio â dweud | 33 | 3.1% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni (1,076) yn yr arolwg – ni roddodd 2 o'r ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn

**Tabl D.7: Oes gennych chi bartner neu briod yn byw gyda chi?**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 912 | 84.8% |
| Nac oes | 153 | 14.2% |
| Dewis peidio â dweud | 10 | 0.9% |

Sylfaen = pob un o’r rhieni (1,075) yn yr arolwg – ni roddodd 3 o’r ymatebwyr ateb i’r cwestiwn hwn

**Tabl D.8: Cyfeiriadedd rhywiol**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Syth/Gwahanrywiol | 1,010* | 95.5% |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 10* | 1.0% |
| Deurywiol | 35* | 3.1% |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall | 5* | 0.5% |

Sylfaen = pob un o’r rhieni (1,058) yn yr arolwg – ni roddodd 20 o’r ymatebwyr ateb i’r cwestiwn hwn
* Mae pob categori wedi ei dalgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn lleihau'r risg o adnabod unigolion

**Tabl D.9: Grŵp ethnig**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| **Gwyn** | | |
| Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig | 999 | 92.9% |
| Gwyddelig | * | *% |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | 0.0% |
| Roma | 0 | 0.0% |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 22 | 2.0% |
| **Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog** | | |
| Gwyn a Du o'r Caribî | 10 | 0.9% |
| Gwyn a Du Affricanaidd; Gwyn ac Asiaidd; Unrhyw gefndir arall Cymysg neu Luosog[8] | 6 | 0.6% |
| **Asiaidd, Asiaidd Gymreig neu Asiaidd Brydeinig** | | |
| Indiaidd, Pacistani, Bangladeshi, Tsieineaidd[8] | 13 | 1.2% |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 6 | 0.6% |
| **Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, o'r Caribî neu Affricanaidd** | | |
| Affricanaidd; Unrhyw gefndir arall Du, Du Prydeinig, o'r Caribî neu Affricanaidd[8] | 6 | 0.6% |
| **Grwpiau ethnig eraill** | | |
| Arabaidd, Unrhyw Grŵp Ethnig arall | * | *% |
| Dewis peidio â dweud | * | *% |

Sylfaen = pob un o'r rhieni (1,075) yn yr arolwg – ni roddodd 3 ymatebydd ateb i'r cwestiwn hwn
* Cywasgwyd y niferoedd bach (llai na 5) i leihau'r perygl o adnabod unigolion

**Tabl D.10: Crefydd**

| | Nifer yr ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Dim crefydd | 661 | 69.7% |
| Cristnogaeth (pob enwad) | 257 | 27.1% |
| Bwdhaeth | * | *% |
| Hindŵiaeth | * | *% |
| Iddewiaeth | * | *% |
| Islam | 16 | 1.7% |
| Unrhyw grefydd arall | 9 | 1.0% |

Sylfaen = pob uno'r rhieni  (948) yn yr arolwg – ni roddodd 130 o'r ymatebwyr ateb i'r cwestiwn hwn
* Cywasgwyd niferoedd bach (llai na 5) er mwyn lleihau'r perygl o fedru adnabod unigolion

[8] Cyfunwyd categorïau yn y rhes hon lle ceir niferoedd is na 5.